Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd

# 4YDD ADRODDIAD BLYNYDDOL: DATBLYGIADAU YM MARCHNAD FEWNOL Y DU 2025-2026

**OIM18**

25 Mawrth 2026

Office for the Internal Market

## Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd

# 4YDD ADRODDIAD BLYNYDDOL: DATBLYGIADAU YM MARCHNAD FEWNOL Y DU 2025-2026

Cyflwynwyd i'r Senedd, Senedd yr Alban, Senedd Cymru a Chynulliad Gogledd Iwerddon yn unol ag adran 33(5) Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020

© Hawlfraint y Goron 2026

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio ble nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn http://www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn OIM@cma.gov.uk

ISBN 978-1-5286-6246-8

E03549645 03/26

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys 40% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu o leiaf

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

# CYNNWYS


RHAGAIR CADEIRYDD PANEL YR OIM ........................................................................6
1. CRYNODEB GWEITHREDOL ........................................................................8
Canfyddiadau allweddol ........................................................................8
Mesur gweithrediad effeithiol Marchnad Fewnol y DU ........................................9
Datblygiadau Rheoleiddiol ........................................................................10
2. CRYNODEB Y CYNNWYS ........................................................................13
3. DATBLYGIADAU YNG NGHYFUNDREFN MARCHNAD FEWNOL Y DU................14
Adolygiad statudol o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020 ...............................14
Eithriadau ........................................................................14
Fframweithiau Cyffredin ........................................................................16
Datblygiadau ehangach sy'n berthnasol i berthynas fasnachol y DU â'r UE ac i le Gogledd Iwerddon ym marchnad fewnol y DU ........................................16
4. MESUR GWEITHREDIAD EFFEITHIOL MARCHNAD FEWNOL Y DU....................19
Data masnach o fewn y DU........................................................................20
Mewnwelediadau ar bwy sy'n masnachu yn y DU ..............................................33
5. DATBLYGIADAU RHEOLEIDDIOL ........................................................................42
Dangosfwrdd datblygiadau rheoleiddiol ..............................................................42
Ymgysylltu â'r diwydiant ynglŷn â gwahaniaethau rheoleiddiol ............................43
Casgliadau ........................................................................50

# RHAGAIR CADEIRYDD PANEL YR OIM

Mae'n bleser gennyf gyflwyno pedwerydd Adroddiad Blynyddol yr OIM, sy'n ymdrin â datblygiadau ym marchnad fewnol y DU rhwng Ebrill 2025 a Mawrth 2026.

Wrth i'r OIM baratoi i nodi ei bumed pen-blwydd ar 1 Medi 2026 ac yn dilyn cyhoeddi'r casgliad i Adolygiad Llywodraeth y DU o gyfundrefn Marchnad Fewnol y DU ym mis Gorffennaf 2025, hoffwn fyfyrio ar rôl yr OIM a'i gyflawniadau, yn ogystal â'n cynlluniau a'n blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Fel y nodais yn fy rhagair y llynedd, mae'r OIM bellach wedi'i sefydlu'n dda i gynghori ar gadernid masnach rhwng pedair gwlad y DU ac effeithiolrwydd cyffredinol marchnad fewnol y DU. Ategwyd hyn gan ymateb Llywodraeth y DU i'r Adolygiad o gyfundrefn Marchnad Fewnol y DU, a nododd nad oes unrhyw newidiadau i swyddogaethau statudol yr OIM a bod yr OIM yn 'cyflawni'n llawn [ac] yn effeithiol' yr holl dasgau sy'n ofynnol ohono. Daeth yr ymateb i'r casgliad bod yr OIM yn 'darparu'r arbenigedd a'r mewnwelediad annibynnol sydd eu hangen i fod yn sail i reolaeth a gweithrediad effeithiol marchnad fewnol y DU.'

Drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Panel OIM wedi cyfarfod yn rheolaidd i drafod datblygiadau rheoleiddiol i gefnogi gweithrediad marchnad fewnol y DU, gan gynnwys cyfarfodydd a gynhaliwyd o Belfast a Chaerdydd. Mae aelodau'r panel wedi gweithio'n rhwydd gyda thîm staff yr OIM, ac rwy'n ddiolchgar i'r holl gydweithwyr am eu cefnogaeth a'u gwaith caled.

Ar flaen ein gwaith mae'r angen i weithredu'n gyfartal ac yn dryloyw, sy'n ein helpu i lywio'r sgwrs ynghylch perthnasoedd economaidd yn y DU, gan gynnwys trwy ein cyhoeddiadau. Yn y cyfnod sydd dan sylw yn yr adroddiad hwn, rydym wedi diweddaru ein Dangosfwrdd Datblygiadau Rheoleiddiol rhyngweithiol yn gyson, sy'n manylu ar y meysydd datblygu polisi sy'n cael eu holrhain ar hyn o bryd gan yr OIM. Rydym hefyd wedi diweddaru ein Map Strategaeth Data, gan amlinellu ein prif flaenoriaethau data sy'n cael eu hategu gan ein gwaith parhaus gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) a'r llywodraethau datganoledig. Yn ogystal, gwnaethom gyhoeddi ein Hadolygiad Ffurf Fer cyntaf, sy'n dadansoddi effeithiau posibl ar fasnach marchnad fewnol y DU o ddeddfwriaeth arfaethedig sy'n ymwneud ag adnabod electronig ar gyfer gwartheg ac anifeiliaid buchol eraill. Cwblhawyd yr adolygiad hwn mewn ychydig dros dri mis, ac mae'n dangos sut, lle mae rhanddeiliaid cysylltiedig a data o ansawdd, gall yr OIM gynhyrchu dadansoddiad targedig ac amserol o wahaniaethau rheoleiddio posibl i gefnogi'r gwaith o lunio polisïau effeithiol ar draws y pedair gwlad.

Mae ymwneud â rhanddeiliaid yn allweddol i ddeall lle allwn gael yr effaith fwyaf yn ein gwaith. Mae ein hymgysylltiad yn cynnwys llunwyr polisi a busnesau ymhlith rhanddeiliaid pwysig eraill fel deddfwrfeydd y Deyrnas Unedig. Eleni fe wnaethom gyfarfod â thros 100 o fusnesau a grwpiau masnach fel rhan o'n gwaith ymchwil i ystod eang o faterion a datblygiadau, ochr yn ochr â'n hymgysylltiad parhaus â swyddogion o'r pedair llywodraeth.

Ers cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol diwethaf, mae yna dros 25 o ffurflenni wedi'u cyflwyno ar y we gan randdeiliaid allanol yn tynnu ein sylw at faterion.

Wrth edrych ymlaen, byddwn yn parhau i flaenoriaethu ymgysylltu â'r pedair llywodraeth, a chydweithio â nhw, yn enwedig wrth gefnogi atgyfeiriadau ar y cyd i'r OIM i hyrwyddo gwaith Fframweithiau Cyffredin. Gall hyn arwain at ragor o gyhoeddiadau mewn perthynas â'n hadolygiad o adnabod electronig buchol, i gefnogi gyda gwneud penderfyniadau gwybodus ar draws y pedair cenedl. Byddwn yn canolbwyntio ar wneud defnydd effeithiol o gynhyrchion data presennol yn ein hadroddiadau, yn ogystal ag archwilio opsiynau sy'n ehangu ein dadansoddiad ac yn ymestyn cymuned o ddiddordeb data o fewn y DU. Fel yr arfer, rydym yn awyddus i glywed gan fusnesau am unrhyw heriau maen nhw'n ei hwynebu gyda'r farchnad fewnol.

I gloi, rwy'n hyderus, wrth barhau i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol, bydd yr OIM yn cefnogi'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) yn ei flaenoriaethau fel y'u nodir yn Strategaeth 2026-29 y CMA, i annog twf a gwella ffyniant aelwydydd.



Murdoch MacLennan
Cadeirydd Panel Swyddfa'r Farchnad Fewnol

# 1. CRYNODEB GWEITHREDOL

1.1 Dyma bedwerydd Adroddiad Blynyddol y Swyddfa'r Farchnad Fewnol (OIM) ar weithrediad marchnad fewnol y DU. Mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng Ebrill 2025 a Mawrth 2026. Rôl yr OIM yw cynorthwyo'r pedair llywodraeth ledled y DU drwy gymhwyso arbenigedd economaidd a thechnegol arall i gefnogi gweithrediad effeithiol marchnad fewnol y DU.

**Canfyddiadau allweddol**

1.2 Yn yr adroddiad eleni, rydym yn parhau i adeiladu ein sylfaen dystiolaeth ar weithrediad marchnad fewnol y DU. Ar y sail hon, gan gynnwys ystyried y dystiolaeth yn ein hadroddiadau blaenorol, y data diweddaraf sydd ar gael mewn perthynas â masnach o fewn y DU (y mae peth ohono yn destun oedi), data arolwg mwy diweddar, a monitro agos datblygiadau rheoleiddiol, mae ein hasesiad cyffredinol fel a ganlyn:

***Mae gweithrediad marchnad fewnol y DU yn sefydlog ac mae'r farchnad fewnol, yn ei chyfanrwydd, yn parhau i weithredu'n effeithiol yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae angen cydweithrediad agos rhwng llywodraethau mewn perthynas â sectorau penodol lle rydym wedi arsylwi'r potensial i wahaniaethau rheoleiddiol ddod i'r amlwg a allai effeithio ar farchnad fewnol y DU.***

1.3 Mae'r asesiad cyffredinol hwn, bod marchnad fewnol y DU yn 'sefydlog', yn ystyried nifer o ffactorau sy'n dangos bod y farchnad fewnol yn parhau i weithredu'n effeithiol a bod cyfundrefn y farchnad fewnol yn cyrraedd mwy o aeddfedrwydd. Yn gyntaf, wrth edrych ar gyfundrefn y farchnad fewnol yn ei chyfanrwydd, mae adolygiad Llywodraeth y DU o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU wedi rhoi cyfle i werthuso ac addasu'r gyfundrefn (gweler pennod 3 isod). Yn ail, nid yw'r data masnach sydd ar gael yn dangos tuedd o symud i ffwrdd o weithrediad effeithiol y farchnad fewnol er bod peth o'r data yn destun oedi (gweler pennod 4 isod). Yn drydydd, wrth archwilio gwahaniaethau rheoleiddio, nid ydym wedi gweld gwahaniaeth o'r darlun macro-economaidd o ran sefydlogrwydd. Fodd bynnag, fe wnaethom nodi meysydd lle gallai fod gwelliannau yn y ffordd y mae gwahaniaethau rheoleiddiol yn cael eu rheoli, er enghraifft, trwy ddefnyddio mwy o Fframweithiau Cyffredin (gweler pennod 5 isod).

**Datblygiadau yng nghyfundrefn marchnad fewnol y DU**

1.4 Cyhoeddodd yr Adran Fusnes a Masnach ymateb Llywodraeth y DU i'w hymgynghoriad cyhoeddus a'i hadolygiad statudol o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU (UKIMA) ar 15 Gorffennaf 2025 gan ystyried astudiaethau achos o waith blaenorol yr OIM ar fawn garddwriaethol a phlastigau untro ymhlith ffynonellau tystiolaeth eraill ac ymatebion i'r ymgynghoriad. Daeth Llywodraeth y DU i'r

casgliad bod yr OIM yn ‘cyflawni’n llawn [ac] effeithiol’ y tasgau sy’n ofynnol ohono a bod yr OIM yn ‘darparu'r arbenigedd a’r ddealltwriaeth annibynnol sydd eu hangen i lywio rheolaeth a gweithrediad effeithiol marchnad fewnol y DU.' Cytunodd Llywodraeth y DU ag ymatebwyr yr ymgynghoriad a oedd am weld rôl ehangach i'r OIM o fewn trafodaethau'r Fframwaith Cyffredin a gwnaeth ymrwymiad i weithio gyda'r llywodraethau datganoledig i gytuno ar broses i'r llywodraethau wneud atgyfeiriadau ar y cyd at yr OIM am gyngor. Yn dilyn hynny, mae'r OIM wedi gweithio gyda'r pedair llywodraeth i ddatblygu'r broses atgyfeirio ar y cyd hon, i ddigwydd yn gynnar yn y broses datblygu polisi, er mwyn darparu cyngor effeithiol i lunwyr polisi sy'n gyson â dyletswydd o gydraddoldeb yr OIM.

1.5 Fel rhan o'i hymateb, ymrwymodd Llywodraeth y DU i weithredu newidiadau i'r broses ar gyfer eithriadau o Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad UKIMA fel bod pob llywodraeth, pryd bynnag sy’n bosibl, yn cytuno ar eithriadau trwy Fframwaith Cyffredin a rhoddir ystyriaeth i effeithiau amgylcheddol ac iechyd y cyhoedd, ochr yn ochr ag effeithiau economaidd. Yn ogystal, bydd proses symlach yn cael ei gweithredu lle mae effaith economaidd rheoliad newydd yn llai na £10 miliwn y flwyddyn.

1.6 Yn ystod y cyfnod sydd dan sylw yn yr Adroddiad Blynyddol hwn, mae yna waharddiad o'r Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad (MAPs) wedi’i chaniatáu mewn perthynas â rheoliadau trapiau glud cnofilod. Yn ogystal, noda'r OIM gynlluniau Llywodraeth Cymru i gyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd i ailgylchu cynwysyddion o ystod o ddeunyddiau gan gynnwys gwydr. Cynigiodd Llywodraeth Cymru eithriad o’r MAPs yn ffurfiol. Mewn ymateb, mae Llywodraeth y DU wedi cynnig eithriad amodol ar gyfer cynwysyddion diodydd gwydr untro.

**Mesur gweithrediad effeithiol Marchnad Fewnol y DU**

1.7 Fel y llynedd, mae ein hasesiad o sut mae marchnad fewnol y DU yn gweithredu yn elwa o set data masnach ryng-ranbarthol y SYG, sy'n cwmpasu masnach rhwng y pedair cenedl (masnach o fewn y DU) ar gyfer 2021. Yn seiliedig ar y set data hon, rydym yn amcangyfrif bod cyfanswm gwerth masnach o fewn y DU o leiaf £128 biliwn yn 2021, sydd, er cyd-destun, gyfwerth â 5.6% o CDG y DU.

1.8 Mae data'r SYG yn dangos bod masnach o fewn y DU yn arbennig o bwysig i'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Yn 2021, roedd gwerthiannau o fewn y DU fel canran gyfwerth â CDG yn fwy na 20% ar gyfer yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru, ac roedd y ffigwr cyfatebol ar gyfer Lloegr tua 3%.

1.9 Mae arolygon masnach cenedl ddatganoledig yn dangos bod masnach o fewn y DU yn cyfrif am gyfran fawr o'r holl fasnach allanol i'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Mae masnach allanol yn cyfeirio at yr holl fasnach y tu allan i genedl

benodol. Mae hyn yn cynnwys masnach i genhedloedd eraill y DU, neu fasnach o fewn y DU, a masnach ryngwladol.

a) Roedd amcangyfrifon o werthiannau nwyddau a gwasanaethau o fewn y DU fel cyfran o gyfanswm y gwerthiannau allanol ar gyfer y blynyddoedd rhwng 2019 a 2022 yn amrywio o 43% i 63% ar gyfer Cymru. Mae data yr Alban yn dangos bod yr un metrig dros y cyfnod 2019 i 2023 yn amrywio o 58% i 62%. Ar gyfer Gogledd Iwerddon, roedd yn amrywio rhwng 48% ac 54% rhwng 2019 a 2024.

b) Roedd amcangyfrifon o bryniannau nwyddau a gwasanaethau o fewn y DU fel cyfran o gyfanswm y pryniannau allanol ar gyfer y blynyddoedd rhwng 2019 a 2022 yn amrywio o 45% i 62% yng Nghymru. Ar gyfer yr Alban, rhwng 2019 a 2023, roedd hyn yn amrywio rhwng 65% a 68%. Roedd yr un metrig ar gyfer Gogledd Iwerddon yn y blynyddoedd 2019 i 2024 yn amrywio rhwng 59% ac 66%.

1.10 Mae cyfran sylweddol o fusnesau'r DU yn cymryd rhan mewn masnach o fewn y DU. Mae data'r arolwg rhwng mis Awst 2022 a mis Hydref 2025 yn dangos bod tua 15% o fusnesau a 43% o fusnesau mawr yn adrodd eu bod wedi gwneud gwerthiannau o fewn y DU yn ystod y cyfnod o 12 mis cyn cael eu harolygu. Fel y nodwyd mewn adroddiadau blynyddol blaenorol yr OIM, cwmnïau yn y sectorau gweithgynhyrchu a'r sectorau cyfanwerthu a manwerthu yw'r mwyaf tebygol o gymryd rhan mewn masnach o fewn y DU.

1.11 Yn unol â blynyddoedd blaenorol, mae data'r arolwg rhwng mis Awst 2022 a mis Hydref 2025 yn dangos nad yw'r rhan fwyaf o fusnesau yn y DU sy'n gwerthu i wledydd eraill y DU yn adrodd eu bod yn wynebu unrhyw heriau wrth wneud hynny, gyda thua 5% yn dweud eu bod yn wynebu heriau sy'n ymwneud â gwahaniaethau mewn rheoleiddio rhwng gwledydd y DU.

**Datblygiadau Rheoleiddiol**

1.12 Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, daeth busnesau i gysylltiad â'r OIM mewn perthynas â chwech o'r 33 maes polisi yr ydym yn eu holrhain ar hyn o bryd ar Ddangosfwrdd Datblygiadau Rheoleiddiol yr OIM. Yn yr adroddiad eleni, rydym yn tynnu sylw at faterion sy'n codi o'n hystyriaeth o effeithiau posibl y farchnad fewnol ynglŷn â'r canlynol:

(a) Tagiau adnabod electronig buchol (EID), testun Adolygiad Ffurf Fer cyntaf yr OIM (gweler y Blwch);

(b) Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Estynedig dros becynwaith (pEPR), lle mynegodd busnesau bryder y bydd y rhyngweithio rhwng y gyfundrefn pEPR a'r

cynlluniau dychwelyd ernes arfaethedig yn effeithio ar fasnach mewn poteli gwydr;

(c) Cynlluniau dychwelyd ernes, lle cododd busnesau bryderon am effaith bosibl ar fasnach y gwahaniaethau rhwng y cynllun arfaethedig ar gyfer Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a'r cynllun arfaethedig ar gyfer Cymru;

(d) Gwaith cosmetig nad ydyw'n llawfeddygol, lle cododd ymarferwyr y diwydiant bryderon am yr effeithiau posibl ar fasnach a'r gallu i ymarfer o ganlyniad i wahaniaethau rheoleiddiol sy'n deillio o'r rheoliadau newydd arfaethedig ar gyfer yr Alban a'r dirwedd reoleiddio yng ngweddill y DU;

(e) Tanwydd solet, lle mynegodd busnesau bryderon bod y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu gwerthiannau yn Lloegr yn rhyngweithio â'r MAPs mewn ffordd a oedd yn tanseilio gwerthiannau a buddsoddiad; a

(f) Gofynion effeithlonrwydd ynni ar gyfer offer trydanol, lle cododd busnesau bryderon bod gwahaniaethau rheoleiddiol a oedd yn gofyn am labelu a safonau cynnyrch gwahanol rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn rhwystro gwerthiannau o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon.

### Adnabod Electronig Buchol

Cododd rhanddeiliaid y diwydiant bryderon y byddai gwahaniaethau rheoleiddiol yn arwain at ddwy safon dechnegol wahanol ar gyfer adnabod electronig buchol sy'n gweithredu yn y DU ac nad yw'r technolegau yn rhyngweithredol â'i gilydd. Gallai hyn gynyddu costau symud gwartheg ar draws y ffin rhwng Lloegr a'r Alban - ac o bosibl effeithio ar fasnach o fewn y DU.

Fe wnaethom gynnal ein hadolygiad ffurf fer cyntaf i archwilio'r mater, gan ddod i'r casgliad, pe bai'n cael ei reoli'n ofalus, y byddai effeithiau cyfyngedig ar gyfaint a phatrwm *cyffredinol* masnach yn y farchnad fewnol, ond gydag effeithiau arwyddocaol ar y busnesau yr effeithir arnynt fwyaf uniongyrchol. Gwelsom hefyd y byddai costau a ffrithiant masnach uwch yn gysylltiedig â masnach drawsffiniol, gyda'r effeithiau wedi'u canolbwyntio yn rhanbarthau gororau Lloegr/yr Alban. Gwnaethom ddau argymhelliad, gyda'r nod o gefnogi llif masnach drawsffiniol dan amodau gwahaniaeth rheoleiddio.

Yn gyntaf, fe wnaethom argymell bod y llywodraethau yn sefydlu gweithgor masnach drawsffiniol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau ffermio, ocsiwn da byw a lladd-dy/prosesu cig i drafod sut ellir cynnal masnach drawsffiniol a pha fuddsoddiadau fyddai'n ei chefnogi orau.

Yn ail, fe wnaethom argymell bod y llywodraethau yn gweithio gyda'i gilydd i greu datganiad ar y cyd clir ar reoli symudiadau trawsffiniol sy'n defnyddio adnabod electronig buchol sy'n digwydd ym Mhrydain Fawr ac, ar wahân i hynny, rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon. Fel rhan o hyn, fe wnaethom argymell bod y llywodraethau yn nodi ar

gyfer cyfranogwyr y diwydiant y sail y bydd yn dderbyniol defnyddio darlleniad adnabod electronig buchol ar gyfer cyflwyno gwybodaeth i'r gronfa ddata genedlaethol berthnasol.

1.13 Ochr yn ochr â'n hymgysylltiad â busnes, rydym wedi olrhain ystod amrywiol o fentrau polisi ac wedi archwilio themâu a thueddiadau sy'n ymwneud â gwahaniaethau rheoleiddio. Rydym wedi arsylwi o'n Dangosfwrdd, a'r materion sydd wedi'u dwyn i'n sylw gan y diwydiant, nad oes unrhyw thema neu sector unigol yn dominyddu o ran gwahaniaethau rheoleiddiol gwirioneddol neu bosibl rhwng y pedair cenedl a bod gan wahaniaethau rheoleiddiol y potensial i ddod i'r amlwg ar draws amrywiaeth o sectorau. Mae'r sectorau lle mae gwahaniaethau rheoleiddio cyfredol neu ddarpar wahaniaethau rheoleiddio yn cynnwys: yr amgylchedd a llesiant anifeiliaid, bwyd a diod, ynni a sero net, diogelwch y cyhoedd, iechyd a diogelwch, gofal iechyd, tai, trafnidiaeth, gwastraff ac ailgylchu, a gwasanaethau eraill.

1.14 Rydym hefyd yn arsylwi, er bod rheoliadau sy'n effeithio ar nwyddau yn dal i fod yn fwy cyffredin na rheoliadau sy'n effeithio ar wasanaethau neu gymwysterau proffesiynol, o ran y potensial i greu gwahaniaethau rheoleiddio, mae rheoliadau sy'n effeithio ar wasanaethau a/neu gymwysterau proffesiynol yn ffynhonnell bwysig o wahaniaeth rheoleiddiol posibl o fewn marchnad fewnol y DU.

1.15 O ystyried ehangder y gwahaniaethau rheoleiddiol posibl, mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd cydweithredu agos rhwng llywodraethau, a'r cwmpas i'r OIM ychwanegu gwerth mewn achosion priodol, gan gynnwys trwy Fframweithiau Cyffredin.

## 2. CRYNODEB Y CYNNWYS

2.1 Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i strwythuro'n dair pennod. Mae'n amlinellu newidiadau parhaus sy'n berthnasol i gyfundrefn marchnad fewnol y DU, yn cyflwyno dadansoddiad o ddata ar weithrediad marchnad fewnol y DU, ac yn nodi'r datblygiadau rheoleiddiol sy'n cael eu monitro ar hyn o bryd gan yr OIM.

2.2 Mae Pennod 3 yn amlinellu datblygiadau diweddar a pharhaus sy'n berthnasol i weithrediad marchnad fewnol y DU. Mae'n crynhoi casgliadau adolygiad statudol Llywodraeth y DU o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2025, ac yn nodi diweddariadau sy'n ymwneud ag eithriadau rhag y MAPs, gan gynnwys newidiadau i'r broses a'r meini prawf ar gyfer rhoi gwaharddiadau, a chynigion a phenderfyniadau diweddar mewn perthynas ag eithrio. Mae'r bennod hefyd yn rhoi trosolwg o ymgysylltu parhaus trwy'r rhaglen Fframweithiau Cyffredin. Daw i gasgliad trwy ddisgrifio'r datblygiadau ehangach sy'n berthnasol i berthynas fasnachol y DU â'r Undeb Ewropeaidd a lle Gogledd Iwerddon ym marchnad fewnol y DU.

2.3 Mae Pennod 4 yn canolbwyntio ar fesur gweithrediad marchnad fewnol y DU gan ddefnyddio data masnach. Mae'n cyflwyno dadansoddiad o bwysigrwydd masnach o fewn y DU gan ddefnyddio data masnach ryng-ranbarthol o'r SYG, ac yna dadansoddiad gwlad-benodol ar gyfer yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Mae hefyd yn tynnu ar ddata tollau CThEF a'r Arolwg Mewnwelediadau a Chyflwr Busnes i ddarparu persbectifau ychwanegol ar fasnach rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon ac ar ymddygiad ac agweddau busnes, wedi'u rhannu yn ôl sector a maint busnes.

2.4 Ym mhennod 5, disgrifir y datblygiadau rheoleiddiol sy'n cael eu monitro ar hyn o bryd gan yr OIM, a'n hymgysylltiad â diwydiant. Cynigia esboniad o sut mae ein Dangosfwrdd Datblygiadau Rheoleiddiol yn cael ei ddefnyddio i gyflwyno gwybodaeth sy'n ymwneud â gwahaniaethau rheoleiddiol ar draws meysydd polisi, sectorau a chenhedloedd. Mae'r bennod wedyn yn disgrifio'r meysydd lle mae'r OIM wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid y diwydiant, sef rheoleiddio sy'n effeithio, ymhlith meysydd eraill, ar adnabod electronig buchol, cynlluniau pecynnu a dychwelyd ernes, gwaith cosmetig nad ydyw'n llawfeddygol, tanwydd solet wedi'i weithgynhyrchu, a gofynion effeithlonrwydd ynni ar gyfer offer trydanol. Daw i gasgliad drwy dynnu sylwadau at ei gilydd ar themâu sectoraidd a pholisi'r datblygiadau rheoleiddiol sy'n cael eu monitro ar hyn o bryd.

# 3. DATBLYGIADAU YNG NGHYFUNDREFN MARCHNAD FEWNOL Y DU

3.1 Yn y bennod hon rydym yn nodi datblygiadau diweddar a pharhaus ynghylch cyfundrefn marchnad fewnol y DU.

**Adolygiad statudol o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020**

3.2 Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei hymateb i'w hymgynghoriad cyhoeddus a'i hadolygiad statudol o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020 (UKIMA) ar 15 Gorffennaf 2025.[1] Ymgysylltodd Llywodraeth y DU â'r OIM a'r llywodraethau datganoledig fel rhan o'r adolygiad. Yn dilyn ei hadolygiad, mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i weithredu newidiadau i'r ffordd y mae rhai darpariaethau cyfundrefn UKIMA yn gweithredu.

3.3 Cytunodd Llywodraeth y DU ag ymatebwyr i'r ymgynghoriad a oedd yn dymuno 'gweld rôl fwy cyfrannog â'r OIM o fewn trafodaethau'r Fframwaith Cyffredin' ac ymrwymodd i 'weithio gyda'r llywodraethau datganoledig i gytuno ar broses i bob llywodraeth wneud atgyfeiriad ar y cyd am gyngor i'r OIM lle mae effeithiau posibl ar farchnad fewnol y DU yn cael eu nodi fel rhan o drafodaethau'r Fframwaith Cyffredin.' Mae'r OIM wedi gweithio gyda'r pedair llywodraeth i ddatblygu proses atgyfeirio ar y cyd ac i archwilio sut fyddai'r broses hon yn gweithredu ar waith i sicrhau bod ein mewnbwn yn dod ar yr adeg iawn yn y cylch llunio polisïau ac yn gyson â'n dyletswydd statudol o gyfartaledd.

**Eithriadau**

3.4 Mae'r MAPs cyd-gydnabyddiaeth a pheidio â gwahaniaethu yn golygu y gellir gwerthu cynnyrch y mae modd ei werthu'n gyfreithlon mewn un rhan o'r DU mewn unrhyw ran arall o'r DU heb ofynion pellach; ac mewn perthynas â gwasanaethau, gellir darparu gwasanaeth y mae modd ei ddarparu'n gyfreithlon mewn un rhan o'r DU mewn unrhyw ran arall o'r DU.

3.5 Mae'r UKIMA yn cynnwys darpariaethau sy'n caniatáu eithrio'r MAPs ar gyfer rheoliadau neu feysydd polisi penodol. Os bydd eithriad yn berthnasol, yna ni fydd busnesau yn gallu dibynnu ar y MAPs i osgoi cydymffurfio ag unrhyw ofynion pellach wrth werthu nwyddau neu ddarparu gwasanaethau yn y rhan berthnasol o'r DU. Gall unrhyw un o'r llywodraethau gynnig eithriad newydd rhag y MAPs.[2]

[1] Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020: adolygiad ac ymgynghoriad - GOV.UK.
[2] Y broses ar gyfer ystyried eithriadau rhag Deddf y Farchnad Fewnol y DU ym meysydd y Fframwaith Cyffredin - GOV.UK.

3.6 Roedd casgliad adolygiad UKIMA yn cynnwys nifer o ymrwymiadau mewn perthynas â'r broses a'r meini prawf ar gyfer cytuno ar eithriadau:

(a) Ymrwymodd Llywodraeth y DU i weithredu newidiadau i'r broses ar gyfer eithriadau rhag y MAPs fel y bydd Llywodraeth y DU yn ei gweithredu pan fydd cynnig eithriad yn cael ei gytuno gan bob llywodraeth mewn Fframwaith Cyffredin.

(b) Ymrwymodd Llywodraeth y DU i ystyried diogelu'r amgylchedd ac iechyd y cyhoedd ochr yn ochr ag effeithiau economaidd wrth ystyried eithriadau o fewn Fframweithiau Cyffredin.

(c) Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i weithredu proses symlach i werthuso eithriadau arfaethedig lle mae'r llywodraeth sy'n cynnig yr eithriad yn asesu na fyddai cyfanswm yr effaith economaidd yn fwy na £10 miliwn y flwyddyn yn nhermau 'Costau Uniongyrchol Net Blynyddol Cyfatebol i Fusnes.'[3]

(d) Ymrwymodd Llywodraeth y DU i weithredu proses eithrio "wrth gefn" lle nad yw wedi bod yn bosibl i'r pedair llywodraeth ddod i gytundeb ar eithriad.

3.7 Mewn perthynas â'r cyfnod sydd dan sylw yn yr Adroddiad Blynyddol hwn:

(a) Caniataodd Llywodraeth y DU, ar gais Llywodraeth yr Alban, eithriad mewn perthynas â gwerthu trapiau glud cnofilod.[4] Dywedodd Llywodraeth y DU y byddai'r eithriad yn arwain at 'yr effaith economaidd leiaf.'[5]

(b) Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynlluniau i weithredu Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd sy'n anelu at gefnogi ailgylchu ac ailddefnyddio ac sy'n cynnwys ystod o ddeunyddiau, gan gynnwys gwydr. Gan fod y rheoliadau hyn yn wahanol i'r Cynlluniau Dychwelyd Ernes sydd i'w cyflwyno yng ngweddill y DU, ar 27 Tachwedd 2025 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi cynnig eithrio'r Cynllun Dychwelyd Ernes yng Nghymru rhag y MAPs yn ffurfiol.[6] Ar 12 Chwefror 2026, mewn ymateb, cynigiodd Llywodraeth y DU eithriad amodol i gynnwys cynwysyddion diodydd gwydr untro.

(c) Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi dechrau gweithio gyda llywodraethau eraill y DU yn y Fframweithiau Cyffredin ar gynnig ar gyfer eithriad UKIMA i weithredu gweddill 'gwaharddiadau Cam 2' Deddf Diogelu'r

---

[3] Gweler paragraffau 38 i 43, Ymateb Llywodraeth y DU i'r Adolygiad o Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 a'r Ymgynghoriad Cyhoeddus.
[4] Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 (Eithriadau rhag Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad: Rheoliadau Trapiau Glud 2025.
[5] Hysbysiad i Senedd yr Alban, 30 Hydref 2025.
[6] Datganiad Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru: Cynllun Dychwelyd Ernes – Gwneud Cais i fod yn Sefydliad Rheoli Ernes, 27 Tachwedd 2025.

Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023.[7] Byddai'r eithriad arfaethedig hon yn datgymhwyso’r MAPs mewn perthynas â'r eitemau canlynol yng Nghymru: caeadau polystyren ar gyfer cwpanau neu gynwysyddion bwyd tecawê; bagiau siopa untro plastig; a chynhyrchion wedi'u gwneud o blastig ocso-ddiraddiadwy.

**Fframweithiau Cyffredin**

3.8 Mae Fframweithiau Cyffredin yn gytundebau anstatudol rhwng y pedair llywodraeth i sefydlu sut ddylid rheoleiddio materion datganoledig neu faterion wedi’u trosglwyddo a lywodraethwyd yn flaenorol gan gyfraith yr UE yn y dyfodol. Mae Fframweithiau Cyffredin yn cynnig ffyrdd o weithio mewn meysydd polisi lle mae lefel uchel o gydlynu yn ddymunol, er mwyn sicrhau bod newidiadau'n cael eu rheoli'n effeithiol ar draws y pedair cenedl.

3.9 Ar ddyddiad yr Adroddiad Blynyddol hwn, mae un Fframwaith Cyffredin wedi'i gwblhau (Sylweddau Peryglus: Cynllunio), mae 27 yn gweithredu dros dro, ac mae dau yn barod i'w cyhoeddi fel Fframweithiau Cyffredin dros dro i'w craffu gan y pedair deddfwrfa.

3.10 Cyhoeddodd Llywodraeth y DU werthusiad o'r rhaglen Fframweithiau Cyffredin ar 17 Gorffennaf 2025.[8] Awgrymodd yr adroddiad y gallai fod cyfleoedd i rannu arfer dda ar draws Fframweithiau a chynigiodd ystyried a allai prosesau penodol helpu i reoli meysydd polisi sy'n rhyngweithio â sawl Fframwaith. Soniodd y gwerthusiad y gallai mwy o ymwybyddiaeth o Fframweithiau Cyffredin gynyddu ymgysylltiad rhynglywodraethol a gellir cyflawni'r ymwybyddiaeth hon trwy fwy o gydweithredu rhwng llywodraethau. Anogodd y gwerthusiad y llywodraethau i rannu enghreifftiau o adegau pan mae ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi bod o gymorth.

3.11 Yn ei hymateb i adolygiad yr UKIMA, ailddatganodd Llywodraeth y DU ei hymrwymiad i'r rhaglen Fframweithiau Cyffredin ac ymrwymodd i weithio gyda'r llywodraethau datganoledig i wella tryloywder a chyfathrebu mewn perthynas â'r rhaglen er mwyn sicrhau gwell ymgysylltiad â busnesau a rhanddeiliaid eraill.

Datblygiadau ehangach sy'n berthnasol i berthynas fasnachol y DU â'r UE ac i le Gogledd Iwerddon ym marchnad fewnol y DU

3.12 Mae darpariaethau deddfwriaethol sy'n angenrheidiol i roi effaith i Fframwaith Windsor y tu hwnt i gylch gwaith statudol yr OIM. Er nad yw'r adroddiad hwn yn adolygu Fframwaith Windsor, rydym yn nodi'r datblygiadau canlynol yn y cyfnod

[7] Datganiad Ysgrifenedig: Diweddariad ar weithredu Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 - Gwaharddiadau Cam 2 (11 Chwefror 2026) | LLYW.CYMRU.
[8] Gwerthuso Fframweithiau Cyffredin (HTML) - GOV.UK.

sydd dan sylw yn yr Adroddiad Blynyddol hwn sy'n berthnasol i le Gogledd Iwerddon ym marchnad fewnol y DU:

(a) Ar 19 Mai 2025, cynhaliodd Llywodraeth y DU a'r UE uwchgynhadledd ar y cyd gyda'r nod o weithio tuag at fwy o gydweithrediad ar draws ystod o feysydd polisi.[9] Ar 13 Tachwedd 2025, rhoddodd Gyngor yr UE awdurdod ffurfiol i'r Comisiwn Ewropeaidd ddechrau trafodaethau gyda'r DU ynglŷn â chytundeb ar gyfer materion glanweithdra a ffytoiechydol cyffredin (SPS). Nod unrhyw gytundeb SPS fyddai lleihau'r baich o fasnachu cynhyrchion amaethyddol rhwng yr UE a'r DU trwy alinio rheolau SPS[10] trwy gael gwared ar yr angen am y rhan fwyaf o dystysgrifau a gwiriadau ar anifeiliaid, planhigion a chynhyrchion cysylltiedig sy'n symud rhwng y DU a'r UE.[11]

(b) Ar 4 Medi 2025, cyhoeddwyd yr Adolygiad Annibynnol o Fframwaith Windsor gan y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Murphy o Dorfaen (Adolygiad Murphy). Canfu Adolygiad Murphy fod y 'cytundeb newydd (SPS) rhwng y DU a'r UE yn cynrychioli cam sylweddol ymlaen, ac yn addo gwelliannau ymarferol ar gyfer Gogledd Iwerddon' ac argymhellodd nifer o ffyrdd o symleiddio prosesau gweinyddol i fusnesau a gwella eglurder rheoleiddio.[12]

(c) Ar 5 Tachwedd 2025, rhyddhaodd Panel Monitro Annibynnol Fframwaith Windsor adroddiad yn canolbwyntio ar y cyfnod rhwng 1 Ionawr 2025 a 30 Mehefin 2025. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod Cynllun Marchnad Fewnol y DU dan y Fframwaith Windsor yn gweithredu'n effeithiol, a bod 96% o werth cludo nwyddau sy'n symud o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon 'ddim mewn perygl' o fynd i'r UE.[13]

(d) Ar 26 Tachwedd 2025, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys becyn gwerth £16.6 miliwn i helpu busnesau yng Ngogledd Iwerddon i lywio rheolau masnach ar ôl Brexit gyda'r nod o greu gwasanaeth cymorth 'siop un stop' i alluogi 'busnesau sydd wedi'u lleoli yng Ngogledd Iwerddon i fanteisio ar eu mynediad i farchnadoedd y DU a'r UE.'[14]

(e) Ar 16 Rhagfyr 2025, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei hymateb ffurfiol i Adolygiad Murphy. Roedd yr ymateb yn derbyn yn fras holl argymhellion yr adolygiad ac yn ymrwymo i weithredu'r argymhellion 'i wella craffu

[9] Datganiad ar y Cyd Uwchgynhadledd yr UE-DU, 19 Mai 2025.
[10] Cyhoeddiad yr UE-DU ar ddechrau trafodaethau ynglŷn â SPS ac ETS, 13 Tachwedd 2025.
[11] Bydd Deddf Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg 2025 yn caniatáu i'r DU alinio â'r UE mewn perthynas â rheoliadau cynnyrch.
[12] Yr Adolygiad Annibynnol o Fframwaith Windsor – Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Murphy o Dorfaen (4 Medi 2025).
[13] Adroddiad Monitro Annibynnol y Fframwaith Windsor (HTML) - GOV.UK (5 Tachwedd 2025).
[14] Reeves yn cefnogi busnes a gwasanaethau cyhoeddus Gogledd Iwerddon yn y Gyllideb - GOV.UK (26 Tachwedd 2025).

democrataidd, cymorth busnes a hwyluso llif masnach rhwng Gogledd Iwerddon a gweddill y DU.'[15]

[15] Llyfnhau llifoedd masnach a sicrhau llwyddiant Marchnad Fewnol y DU - Ymateb Llywodraeth y DU i'r Adolygiad Annibynnol o Fframwaith Windsor (16 Rhagfyr 2025).

# 4. MESUR GWEITHREDIAD EFFEITHIOL MARCHNAD FEWNOL Y DU

4.1 Yn y bennod hon, rydym yn cyflwyno dadansoddiad o fasnach a data arall sy'n berthnasol i ddeall gweithrediad marchnad fewnol y DU. Yn gyntaf, fe wnaethom nodi ein dadansoddiad o ddata ynghylch masnach rhwng cenhedloedd y DU (masnach o fewn y DU). Yna rydym yn adolygu tystiolaeth sy'n rhoi mewnwelediadau i ba raddau y mae gwahanol fathau o fusnes yn masnachu â rhannau eraill o'r DU a'r rhwystrau posibl y maent yn eu hwynebu, cyn darparu adran derfynol sy'n tynnu at ei gilydd y dystiolaeth a adolygwyd yn y bennod hon.

4.2 Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'r OIM yn defnyddio ystod eang o ddata a gwybodaeth megis data meintiol ynghylch masnach rhwng cenhedloedd y DU a gwybodaeth ansoddol ynghylch agweddau busnes at fasnach o fewn y DU. Ers i'r OIM ddechrau gweithredu yn 2021, rydym wedi tynnu sylw at bwysigrwydd data cyson, rheolaidd a chynhwysfawr sy'n ymwneud â gweithrediad marchnad fewnol y DU.

4.3 Ym mis Mawrth 2023, gwnaethom gyhoeddi ein map strategaeth data, gyda'r nod o geisio hyrwyddo casglu a chyhoeddi data macro cyson ynghylch masnach yn y DU ac, yn fwy cyffredinol, er mwyn annog gwelliant yn y sylfaen dystiolaeth ar farchnad fewnol y DU. Gwnaethom gyhoeddi diweddariadau i'r map hwn yn 2024 a 2025. Yn ein diweddariad 2025, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin, fe wnaethom nodi ein blaenoriaethau ar gyfer 2025 i 2026, gan gynnwys prosiectau yr ydym yn eu bwrw ymlaen a'r rhai lle rydym yn awyddus i weithio gyda phartneriaid ar draws y gymuned ymchwil ehangach. Bu diweddariadau cadarnhaol mewn perthynas â'r blaenoriaethau hyn, ac un ohonynt yw cyhoeddi llif taliadau diwydiant i ddiwydiant yn y DU rhwng 2019 a 2025, a ryddhawyd gan y SYG ym mis Ionawr eleni. Rydym yn bwriadu rhannu diweddariad ynghylch hyn a'n prosiectau eraill yn ddiweddarach eleni.

4.4 Yn yr Adroddiad Blynyddol eleni, rydym yn cynnwys data newydd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), Llywodraeth yr Alban, ac Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon (NISRA). Yn ogystal â hyn, rydym yn cynnwys Data Tollau CThEF ar gyfer masnach rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr, yn ogystal ag ymatebion i'r Arolwg Mewnwelediadau a Chyflwr Busnes (BICS) [16] diweddaraf a gyhoeddwyd gan y SYG, i ddarparu rhagor o wybodaeth ynglŷn ag

[16] Anfonir y BICS at fusnesau ddwywaith y mis, a chyfeirir at bob set o gwestiynau fel 'ton', ac mae ymatebion i'r arolwg yn wirfoddol. Mae gan y BICS nifer fawr o gwestiynau, nid yw pob un ohonynt yn cael eu gofyn ym mhob ton. Ar hyn o bryd, gofynnir cwestiynau yn ymwneud â gwerthu a phrynu o fewn y DU yr OIM bob chwe thon, er bod hyn wedi amrywio dros amser. Mae'r cwestiynau BICS a ddefnyddiwn yn yr adroddiad hwn wedi'u cynnwys rhwng tonnau 63 a 143, sy'n cyfateb i'r cyfnod rhwng mis Awst 2022 a mis Hydref 2025. Dylid nodi bod canlyniadau ton weithiau yn cael eu cuddio gan y SYG oherwydd nifer isel yn ateb. Mae'r BICS yn arolwg gwirfoddol, y mae gofyn ei ddychwelyd yn sydyn ac fe'i cyhoeddir fel ystadegyn swyddogol sy'n cael ei ddatblygu. Mae canlyniadau cenedlaethol yn cael eu pwysoli, ac mae llwybr y cwestiynau, y cwmpas a phatrymau ymateb yn amrywio rhwng tonnau. Mae amcangyfrifon yn adlewyrchu'r busnesau y mae pob cwestiwn yn berthnasol iddynt a dylid eu dehongli gyda'r nodweddion hyn mewn golwg.

ymddygiad gwahanol sectorau sy'n masnachu yn y Deyrnas Unedig. Nid yw data masnach wedi'i ddiweddaru ar gyfer Cymru wedi'i gyhoeddi gan Arolwg Masnach Cymru yn y flwyddyn adrodd hon. O ganlyniad, ac i ddarparu darlun cyflawn ar draws y pedair cenedl, rydym yn adrodd y ffigyrau diweddaraf sydd ar gael o Arolwg Masnach Cymru, a adroddwyd hefyd yn ein Hadroddiad Blynyddol 2024-2025.

4.5 Y data a gyflwynwn yw'r ffynonellau llywodraeth mwyaf diweddar sydd ar gael i ni gan y SYG, Trysorlys EF, CThEF a'r gweinyddiaethau datganoledig. Maent yn cynnwys ystadegau swyddogol achrededig, ystadegau swyddogol sy'n cael eu datblygu (megis BICS y SYG a data Masnach Ryng-ranbarthol y SYG), a chyfresi gweinyddol/tollau; gyda'i gilydd, maent yn cynnig sylw i fasnach ryng-ranbarthol y DU a thueddiadau cysylltiedig. Nid yw'r data hwn i gyd yn ymwneud â'r un cyfnod o amser, felly dylid dehongli'r dystiolaeth a gyflwynwn fel darlun cyffredinol a thueddiadau ehangach, yn hytrach na 'ciplun' o farchnad fewnol y DU ar un adeg mewn amser.

### Data masnach o fewn y DU

4.6 Yn yr adran hon o'r adroddiad, rydym yn dechrau trwy archwilio cyfanswm gwerth masnach o fewn y DU a'i bwysigrwydd cymharol i bob un o bedair cenedl y DU gan ddefnyddio set ddata Masnach Ryng-ranbarthol y SYG. Yna rydym yn archwilio tystiolaeth wlad-benodol ar gyfer yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

4.7 Wrth archwilio tueddiadau yng ngwerthoedd nominal masnach o fewn y DU dros amser, mae rhywfaint o'r amrywiad a welwyd yn debygol o gael ei achosi gan chwyddiant yn hytrach na chan newidiadau yng ngwerth termau real masnach.[17] Yn ystod y cyfnod y mae gennym ddata ar ei gyfer, gwelwyd lefelau amrywiol o chwyddiant. Mae hyn yn arbennig o berthnasol ar gyfer blynyddoedd 2022 a 2023, a welodd gyfraddau chwyddiant hanesyddol uchel.[18] Felly, pan fyddwn yn adrodd gwerthoedd absoliwt masnach o fewn y DU dros amser, rydym yn datchwyddo gwerthoedd nominal gan ddefnyddio'r datchwyddydd CDG. Dylid nodi nad yw'r addasiad hwn yn dileu'n berffaith effaith chwyddiant ar werthoedd masnach o fewn y DU, ac nid oes set o ddatchwyddwyr sy'n gwneud hyn ar hyn o bryd.

[17] Mae'n werth nodi hefyd bod pandemig COVID-19 wedi achosi tarfu sylweddol ar fasnach a gweithgarwch busnes, gyda data o 2020 a 2021 yn cael eu heffeithio fwyaf gan hyn.


[18] Newid canrannol y Mynegai Prisiau Defnyddwyr dros 12 mis: 1.8% yn 2019, 0.9% yn 2020, 2.6% yn 2021, 9.1% yn 2022, 7.3% yn 2023 a 2.5% yn 2024. Gweler Tablau chwyddiant prisiau defnyddwyr - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

4.8 Mae'r amcangyfrifon diweddaraf o werth masnach o fewn y DU, gan gynnwys Lloegr, yn cael eu darparu gan set ddata Masnach Ryng-ranbarthol y SYG.[19] Mae gwerth masnach o fewn y DU a adroddir yn y setiau data hyn yn eithrio'r sector cyllid ac yswiriant.[20] O ganlyniad, mae gwerth (fel swm absoliwt ac fel cyfran o CDG) y fasnach o fewn y DU a adroddir fel amcangyfrif terfyn is.

4.9 Roedd masnach o fewn y DU yn cyfateb i o leiaf 5.8% o gynnyrch domestig gros (CDG) yn 2019, sef £129 biliwn. Yn 2021, roedd y ffigwr hwn o leiaf 5.6% o CDG, sydd, ar ôl addasiad ar gyfer chwyddiant, yn cyfateb i thua £122 biliwn ym mhrisiau 2019.

4.10 Mae Ffigur 1 yn dangos bod masnach o fewn y DU yn cyfrif am ganran uwch o CDG i'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon na Lloegr. Yn 2021, roedd gwerthiannau o fewn y DU yn cyfateb i o leiaf: 3.1% o CDG ar gyfer Lloegr, 21.9% ar gyfer yr Alban, 20.6% ar gyfer Cymru a 24.1% ar gyfer Gogledd Iwerddon. Yn yr un modd, roedd pryniannau o fewn y DU yn 2021 yn cynrychioli: 3.1% o CDG ar gyfer Lloegr, 23.2% ar gyfer yr Alban, 17.2% ar gyfer Cymru a 24.4% ar gyfer Gogledd Iwerddon. Mae'r ffigyrau hyn yn debyg i'r hyn a welwyd ar gyfer 2019.

**Ffigur 1: Mae masnach o fewn y DU yn bwysicach i'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon na Lloegr**




Data o fasnach Ryng-ranbarthol y DU gan y SYG a chynnyrch domestig gros rhanbarthol gan y SYG. Bariau wedi'u trefnu yn ôl maint o'r lleiaf i'r mwyaf.

[19] Gweler Masnach ryng-ranbarthol mewn nwyddau a gwasanaethau, y DU, Rhifyn 2021 - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'r amcangyfrifon yn ceisio gwella ansawdd a chydlyniad data arolygon presennol gan lywodraethau datganoledig yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Mae data arolwg a gweinyddol arall yn cael eu trosoli i lenwi bylchau data hysbys ac amcangyfrif masnach gyda rhanbarthau ITL1 Lloegr, a rhyngddynt. Am ragor o wybodaeth, gweler Masnach ryng-ranbarthol mewn nwyddau a gwasanaethau, gwybodaeth ansawdd a methodoleg y DU - Swyddfa Ystadegau Gwladol. Nid yw amcangyfrifon masnach ryng-ranbarthol y SYG yn uniongyrchol gymharol ag arolygon masnach cenhedloedd datganoledig nac amcangyfrifon 2015 o werthoedd masnach o fewn y DU gan ESCoE oherwydd gwahaniaethau methodolegol, gan gynnwys cwmpas gwahanol yn y diwydiant.
[20] Yn 2019, roedd y sector cyllid ac yswiriant yn cyfrif am 8% o'r Gwerth Ychwanegol Gros. Yr un ffigwr yn 2020 oedd 9% a 9% yn 2021. Data o Werth ychwanegol gros rhanbarthol - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

4.11 Mae Ffigur 2 yn dangos bod gwerthoedd masnach o fewn y DU yn adlewyrchu maint yr economïau cenedlaethol yn fras, ac mai Lloegr yw'r partner masnach mwyaf ar gyfer pob cenedl ddatganoledig. Yn 2021, roedd gwerthiannau o fewn y DU i Loegr yn cyfrif am dros 92% o gyfanswm y gwerthiannau ar gyfer yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, a thros 92% o gyfanswm y pryniannau o fewn y DU. Mewn cymhariaeth, roedd dros hanner gwerthiannau a phryniannau Lloegr o fewn y DU i/o'r Alban.

**Ffigur 2: Mae gwerthoedd masnach o fewn y DU yn adlewyrchu maint economïau cenedlaethol yn fras**




Data o fasnach Ryng-ranbarthol y DU gan y SYG. Bariau wedi'u trefnu yn ôl maint o'r lleiaf i'r mwyaf.

**Data yr Alban**


4.12 Edrychwn nesaf ar ddata ar werthiannau o'r Alban i weddill y DU. Y brif ffynhonnell ddata ar gyfer gwerthiannau'r Alban yw cyhoeddiad Ystadegau Allforio yr Alban (ESS).[21] Mae ystadegau pryniannau yn dod o'r Cyfrifon Cenedlaethol Chwarterol.[22] Cyhoeddodd ESS amcangyfrifon o werthiannau o fewn y DU ar gyfer 2022 a 2023 yn 2025.

*Gwerthiannau o fewn y DU yn yr Alban*

[21] Gweler Ystadegau Allforio yr Alban 2023. Mae Ystadegau Allforio yr Alban (ESS) yn amcangyfrif gwerth allforion rhyngwladol ac allforion yr Alban i weddill y DU. Mae'r Global Connections Survey (GCS) yn un o'r prif ffynonellau data sy'n llywio'r amcangyfrifon o allforion yr Alban yn Ystadegau Allforio yr Alban. Mae Llywodraeth yr Alban yn anfon y GCS at sampl o 6,000-10,000 o gwmnïau sydd â gweithrediadau yn yr Alban i gasglu data ar werth gwerthiannau ac allforion, a hynny yn rhyngwladol ac i weddill y DU. Dyma'r brif ffynhonnell wybodaeth ar gyfer amcangyfrifon o werth allforion o'r Alban i weddill y DU. Lle nad yw gwybodaeth allforio GCS ar gael gan y GCS, mae Ystadegau Allforio yr Alban yn defnyddio ffynonellau amgen o wybodaeth allforio, neu'n amcangyfrif gwerth allforion fel canran o drosiant busnes. Nododd ESS nad yw'r ystadegau yn cynnwys echdynnu olew a nwy ar y môr. Ar gyfer yr holl godau SIC sydd wedi'u heithrio, gweler Global Connections Survey: tabl diwydiannau eithriedig - Export Statistics Scotland. Mae ESS yn nodi bod diwygiadau yn y dyfodol yn debygol wrth i wybodaeth newydd ddod ar gael.
[22] Gweler tablau atodol cyfrifon cenedlaethol chwarterol CDG, tabl C1.

4.13 Mae Ffigur 3 yn dangos bod gwerthiannau'r Alban i weddill y DU o'i gymharu â chyfanswm y gwerthiannau allanol wedi parhau'n gyson yn eang rhwng 2019 a 2023 ar tua 60%. Gwerth gwerthiannau o fewn y DU yr Alban yn 2023 oedd £55.4 biliwn.[23]

**Ffigur 3: Parhaodd gwerthiannau o fewn y DU yn yr Alban yn gyson yn eang o'i gymharu â chyfanswm y gwerthiannau allanol rhwng 2019 a 2023**





*Pryniannau o fewn y DU yn yr Alban*

4.14 Mae Ffigur 4 yn dangos bod gwerth pryniannau yr Alban gan weddill y DU fel cyfran o gyfanswm y pryniannau allanol wedi parhau'n gyson yn eang rhwng 2019 a 2023, rhwng 65-68%. Yn 2023, gwerth pryniannau o fewn y DU yr Alban oedd £87.8 biliwn.[24]

[23] Mae'r ffigwr hwn tua £46.8 biliwn ym mhrisiau 2019.
[24] Mae'r ffigwr hwn tua £74.2 biliwn ym mhrisiau 2019.

**Ffigur 4: Mae pryniannau o fewn y DU yr Alban fel cyfran o gyfanswm y pryniannau allanol wedi parhau'n gyson yn eang rhwng 2019 a 2023**



Data o Gyfrifon Cenedlaethol Chwarterol CDG yr Alban. Cyfanswm y pryniannau allanol yn cynrychioli cyfanswm y mewnforion.

### Data Cymru

4.15 Mae Arolwg Masnach Cymru (TSW) yn cynnig amcangyfrifon ar werthoedd masnach o fewn y DU gan fusnesau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.[25] Nid yw data masnach wedi'i ddiweddaru ar gyfer Cymru wedi'i gyhoeddi gan Arolwg Masnach Cymru (TSW) yn y flwyddyn adrodd hon. O ganlyniad, rydym yn adrodd ar y ffigyrau diweddaraf sydd ar gael a adroddwyd hefyd yn ein Hadroddiad Blynyddol 2024-2025.[26]

*Gwerthiannau o fewn y DU Cymru*

4.16 Mae Ffigur 5 yn dangos bod amcan werth y nwyddau a gwasanaethau a werthwyd gan fusnesau yng Nghymru i weddill y DU fel cyfran o gyfanswm y gwerthiannau


[25] Data o Arolwg Masnach Cymru (TSW): 2022. Mae TSW yn cael ei ddosbarthu fel "ystadegau swyddogol yn cael eu datblygu" gan fod gwaith i wella'r fethodoleg yn parhau. Golyga hyn fod diwygiadau yn y dyfodol yn debygol a dylid trin canlyniadau fel rhai dros dro (datganiad TSW 2022) (gweler Arolwg Masnach Cymru (TSW): 2022 (ystadegau swyddogol yn cael eu datblygu)). Mae TSW yn cydnabod cyfraddau ymateb cymharol isel er y dylai'r fethodoleg cyfrifiad ar draws y flwyddyn a ddefnyddiwyd ganiatáu am gymariaethau lefel uchel cadarn dros amser (gweler Arolwg Masnach Cymru (TSW) 2022: gwybodaeth ansawdd a methodoleg). Mae TSW yn cydnabod bodolaeth lefelau amrywiol o werthoedd masnach heb eu dyrannu ar draws blynyddoedd. Mae gwerthoedd heb eu dyrannu yn bodoli lle mae busnesau wedi gwneud gwerthiannau neu bryniannau ond nad oeddent yn gallu eu dyrannu i gyrchfan neu leoliad tarddiad. Roedd gwerthoedd masnach heb eu dyrannu ar gyfer blynyddoedd 2020 a 2021 yn sylweddol uwch na blynyddoedd eraill. Gweler Arolwg Masnach Cymru (TSW): 2022 (ystadegau swyddogol yn cael eu datblygu). Dylid ystyried hyn wrth wneud cymariaethau dros amser, gan y gall newidiadau mewn gwerthoedd gwerthu neu brynu ar draws blynyddoedd fod oherwydd newidiadau ym mha mor effeithiol y dyrennir cyrchfannau neu darddiad i fasnach, yn hytrach na newidiadau yn y byd go iawn.

[26] Gweler Adroddiad Blynyddol OIM 2024 i 2025, paragraffau 2.14 i 2.19.

allanol[27] wedi cynyddu rhwng 2021 a 2022. Amcan werth gwerthiannau o fewn y DU Cymru oedd £48 biliwn yn 2022.[28] Roedd hyn yn cynrychioli 63% o gyfanswm y gwerthiannau allanol, cynnydd o 43% yn 2021.

**Ffigur 5: Cynyddodd gwerth gwerthiannau o fewn y DU Cymru o'i gymharu â chyfanswm y gwerthiannau allanol rhwng 2021 a 2022**

*Siart bar yn dangos gwerthiannau Cymru i weddill y DU fel canran o gyfanswm y gwerthiannau allanol. Data o Arolwg Masnach Cymru.*




4.17 Mae'r cynnydd sylweddol mewn amcangyfrifon o werthoedd cymharol gwerthiannau i weddill y DU rhwng 2021 a 2022 yn cael ei esbonio, o leiaf yn rhannol, gan werthiannau heb eu dyrannu o Gymru yn gostwng o £22 biliwn yn 2021 i £4 biliwn yn 2022.[29] Hynny yw, efallai fod rhywfaint o'r cynnydd yng ngwerth cymharol gwerthiannau i weddill y DU a welwyd rhwng 2021 a 2022 wedi deillio o fwy o werthiannau yn cael eu dyrannu i gyrchfan o fewn y TSW yn hytrach na chynnydd yn y byd go iawn. Gellir dweud yr un peth hefyd am y gostyngiad yng ngwerth cymharol gwerthiannau rhwng 2019 a 2020, lle mae yna gynnydd yng ngwerth gwerthiannau heb eu dyrannu.

[27] Diffinnir cyfanswm y gwerthiannau allanol fel yr holl werthiannau a wnaed y tu allan i Gymru. Mae hyn yn cynnwys gwerthiannau i: gweddill y DU, yr UE,
y tu allan i'r UE a heb ei ddyrannu.


[28] Roedd y ffigwr hwn tua £43.3 biliwn ym mhrisiau 2019.

[29] Gwerth y gwerthiannau heb eu dyrannu oedd £4 biliwn yn 2019, £20 biliwn yn 2020, £22 biliwn yn 2021 a £4 biliwn yn 2022.

4.18 Yn Ffigur 6 ceir dadansoddiad o werthiannau o fewn y DU Cymru yn ôl y wlad gyrchfan yn 2022. Roedd gwerthiannau i Loegr yn cyfrif am 49% o werthiannau o fewn y DU yn 2022, yr Alban am 5%, Gogledd Iwerddon am 8% a gwerthiannau i wledydd eraill y DU na ellid eu dyrannu i wlad gyrchfan am 37%.[30]

**Ffigur 6: Lloegr oedd y gyrchfan fwyaf ar gyfer gwerthiannau o fewn y DU Cymru yn 2022**

*Map coed o werthiannau o fewn y DU Cymru yn ôl cyrchfan yn 2022. Gwerthoedd a gyflwynir mewn £biliwn (prisiau cyfredol) ac fel cyfran o gyfanswm gwerthiannau o fewn y DU. Data o Arolwg Masnach Cymru.*




*Pryniannau o fewn y DU Cymru*


4.19 Mae Ffigur 7 yn dangos bod amcan werth pryniannau gan fusnesau yng Nghymru o weddill y DU fel cyfran o gyfanswm y pryniannau allanol[31] wedi cynyddu rhwng 2021 a 2022.[32] Gwerth pryniannau o fewn y DU oedd £26 biliwn yn 2022.[33] Roedd hyn yn cynrychioli 56% o gyfanswm pryniannau allanol, cynnydd o 45% yn 2021.

[30] Mae gwerthiannau i genhedloedd eraill y DU na ellid eu dyrannu i wlad gyrchfan, neu "y DU heb eu dyrannu", yn cynrychioli gwerthiannau lle gwyddys bod y gyrchfan yn wlad arall yn y DU, ond ni ellid adnabod y wlad benodol yn y DU. Mae hyn yn wahanol i werthiannau heb eu dyrannu, sy'n cyfeirio at werthiannau lle mae'r cyrchfan yn gwbl anhysbys.
[31] Diffinnir cyfanswm pryniannau allanol fel pob pryniant o'r tu allan i Gymru. Mae hyn yn cynnwys pryniannau o: gweddill y DU, yr UE, y tu allan i'r UE a heb eu dyrannu.
[32] Wrth ddehongli ffigyrau pryniannau o fewn y DU yng Nghymru, mae'n bwysig ystyried effaith lefelau amrywiol o bryniannau sydd heb eu dyrannu i darddiad. Gallai hyn arwain at rai newidiadau yng ngwerth absoliwt a chymharol pryniannau o fewn y DU dros amser oherwydd mwy/llai o bryniannau yn cael eu dyrannu i darddiad, yn hytrach na newid yn y byd go iawn. Gwerth y pryniannau heb eu dyrannu i darddiad oedd £8 biliwn yn 2019, £23 biliwn yn 2020, £27 biliwn yn 2021 a £10 biliwn yn 2022.
[33] Mae'r ffigwr hwn tua £23.5 biliwn ym mhrisiau 2019.

Mae hyn yn gwrthdroi'r duedd a welwyd rhwng 2019 a 2021 o bryniannau o fewn y DU fel cyfran o gyfanswm y pryniannau allanol yn gostwng.

**Ffigur 7: Cynyddodd gwerth pryniannau o weddill y DU o'i gymharu â chyfanswm y pryniannau allanol rhwng 2021 a 2022**

*Siart bar yn dangos pryniannau Cymru o weddill y DU fel canran o gyfanswm pryniannau allanol. Data o Arolwg Masnach Cymru.*





4.20 Mae Ffigur 8 yn dadansoddi pryniannau o fewn y DU yng Nghymru yn ôl gwlad yn 2022. Roedd pryniannau o Loegr yn cyfrif am 83% o gyfanswm y pryniannau o weddill y DU yn 2022, yr Alban am 1%, Gogledd Iwerddon am 0.5% a phryniannau o weddill y DU na ellid eu dyrannu i genedl benodol am 15%.[34]

[34] Mae pryniannau o genhedloedd eraill y DU na ellid eu dyrannu i wlad tarddiad, neu "y DU heb eu dyrannu", yn cynrychioli pryniannau lle gwyddys bod y tarddiad yn wlad arall yn y DU, ond ni ellid adnabod y wlad benodol yn y DU. Mae hyn yn wahanol i bryniannau heb eu dyrannu, sy'n cyfeirio at bryniannau lle mae'r tarddiad yn gwbl anhysbys.

**Ffigur 8: Lloegr oedd y gyrchfan fwyaf ar gyfer pryniannau o fewn y DU Cymru yn 2022**

*Map coed o bryniannau o fewn y DU Cymru yn ôl cyrchfan yn 2022. Gwerthoedd a gyflwynir mewn £biliwn (prisiau cyfredol) ac fel cyfran o gyfanswm pryniannau o fewn y DU. Data o Arolwg Masnach Cymru.*




*A= Yr Alban: £0.262bn, 1%
*B= Gogledd Iwerddon: £0.133bn, 0.5%
Data o Arolwg Masnach Cymru.

### Data Gogledd Iwerddon

4.21 Rydym yn tynnu ar dair ffynhonnell ddata sy'n darparu gwybodaeth ynghylch masnach Gogledd Iwerddon gyda gweddill y DU. Mae Ystadegau Masnach Economaidd Gogledd Iwerddon yn darparu gwybodaeth ynghylch gwerthoedd masnach, ac mae Data Tollau CThEF a'r Arolwg Mewnwelediadau a Chyflwr Busnes yn darparu gwybodaeth ychwanegol ynghylch masnach mewn nwyddau. Er nad oes modd cymharu'r ffynonellau hyn yn uniongyrchol, gellir eu defnyddio mewn cyfuniad er mwyn cynnig darlun mwy cynhwysfawr o fasnach o fewn y DU Gogledd Iwerddon.


4.22 Mae cyhoeddiad Ystadegau Masnach Economaidd Gogledd Iwerddon[35] yn darparu amcan werthoedd masnach busnesau Gogledd Iwerddon â gweddill y DU.

[35] Gweler Ystadegau Masnach Economaidd Gogledd Iwerddon (NIETS) - Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon. Mae'r NIETS yn fesur seiliedig ar arolwg o fasnach busnesau gyda marchnadoedd y tu allan i Ogledd Iwerddon. Cesglir data trwy Ymchwiliad Busnes Blynyddol Gogledd Iwerddon. Mae'r data diweddaraf a gyhoeddwyd yn rhai dros dro a byddant yn cael eu hadolygu yn y cyfnod adrodd nesaf.

*Gwerthiannau o fewn y DU Gogledd Iwerddon*

4.23 Mae Ffigur 9 yn dangos bod amcan werth gwerthiannau Gogledd Iwerddon i weddill y DU o'i gymharu â chyfanswm y gwerthiannau allanol wedi parhau'n gyson yn eang rhwng 2019 a 2024. Gwerth gwerthiannau o fewn y DU Gogledd Iwerddon oedd £20 biliwn yn 2024[36], a oedd yn cynrychioli 51% o gyfanswm y gwerthiannau allanol. Yn ystod y cyfnod 2019 i 2024 mae'r ffigwr hwn wedi amrywio rhwng 48% ac 54%.

**Ffigur 9: Gwerth gwerthiannau o fewn y DU Gogledd Iwerddon o'i gymharu â chyfanswm y gwerthiannau allanol rhwng 2019 a 2024**





*Pryniannau o fewn y DU Gogledd Iwerddon*

4.24 Mae Ffigur 10 yn dangos bod amcan werth y pryniannau a wnaed gan fusnesau yng Ngogledd Iwerddon o genhedloedd eraill y DU yn parhau i fod yn gyson yn eang o'i gymharu â chyfanswm y pryniannau allanol rhwng 2019 a 2024. Gwerth pryniannau o fewn y DU oedd £16 biliwn yn 2024[37], a oedd yn cynrychioli 59% o gyfanswm y pryniannau allanol. Rhwng 2019 a 2024 mae'r ffigwr hwn wedi amrywio rhwng 59% ac 66%.

[36] Mae'r ffigur hwn tua £16.4 biliwn ym Mhrisiau 2019.
[37] Mae'r ffigur hwn tua £13.3 biliwn ym Mhrisiau 2019.

**Ffigur 10: Gwerth pryniannau o fewn y DU yng Ngogledd Iwerddon o'i gymharu â chyfanswm y pryniannau allanol rhwng 2019 a 2024**




Data o Ystadegau Masnach Economaidd Gogledd Iwerddon 2024. Cyfanswm y pryniannau allanol yn cynrychioli'r holl bryniannau o gyrchfan y tu hwnt i Ogledd Iwerddon.

*Arolwg Mewnwelediadau a Chyflwr Busnes*

4.25 Mae'r BICS yn gofyn i fusnesau[38] a ydyn nhw wedi anfon nwyddau o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon, ac i'r gwrthwyneb, yn ystod y 12 mis diwethaf a sut mae nifer y nwyddau a anfonwyd yn cymharu â'r mis calendr blaenorol. Mae'r ffynhonnell hon yn groes-wiriad defnyddiol ar gyfer deall unrhyw newidiadau mewn ymddygiad busnes dros amser.


4.26 Mae Ffigur 11 yn dangos, yn ystod y cyfnod rhwng mis Ionawr 2021 a mis Tachwedd 2025, bod cyfran y busnesau a adroddodd eu bod wedi anfon nwyddau o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon dros gyfnodau o 12 mis tua 4.5%, er bod yna rywfaint o amrywiad rhwng tonnau'r arolwg.[39] Rhwng mis Mawrth 2022 a mis Medi 2025, dywedodd nifer cyfartalog o 48% o fusnesau fod cyfeintiau nwyddau a anfonwyd o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon wedi aros yr un fath mewn cymhariaeth â'r mis blaenorol, dywedodd 23% fod cyfeintiau wedi gostwng, a

[38] Mae'r garfan o fusnesau sy'n cymryd rhan yn y BICS yn gwmnïau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW a / neu PAYE yn y DU. Maen nhw, felly, yn gwmnïau sydd â gweithrediadau yn y DU.
[39] Cwestiwn: "A yw eich busnes wedi anfon nwyddau o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon yn ystod y 12 mis diwethaf?". 4.5% yw'r gyfran gyfartalog o fusnesau sy'n "masnachu ar hyn o bryd" ac sy'n ymateb "do" sy'n cwmpasu tonnau rhwng ton 23 a thon 143. Roedd cyfrannau ym mhob ton yn amrywio o 3.6% i 5.8%.

dywedodd 5% fod cyfeintiau wedi cynyddu.[40] Mae'r canfyddiadau hyn yn gyson â'r rhai yn Adroddiad Blynyddol y llynedd.

4.27 Mae Ffigur 11 hefyd yn dangos bod cyfran y busnesau a ddywedodd eu bod wedi anfon nwyddau o Ogledd Iwerddon i Brydain Fawr dros gyfnodau o 12 mis rhwng mis Mai 2021 a mis Mai 2025 yn amrywio rhwng 1% a 1.6%.[41] O ran cyfeintiau, rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Mehefin 2024, nododd 50% o fusnesau fod cyfeintiau nwyddau a anfonwyd o Ogledd Iwerddon i Brydain Fawr wedi parhau yr un fath mewn cymhariaeth â'r mis blaenorol, dywedodd 3.5% eu bod wedi cynyddu, a dywedodd 25% bod y cyfeintiau wedi gostwng.[42]

**Ffigur 11: Ar gyfartaledd, mae 4.5% o gwmnïau yn anfon nwyddau o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon, ac mae llai na 2% yn anfon nwyddau o Ogledd Iwerddon i Brydain Fawr**




Data o'r Arolwg Mewnwelediadau a Chyflwr Busnes. Cwestiwn: 'A yw eich busnes wedi anfon nwyddau o Brydain Fawr/Gogledd Iwerddon i Ogledd Iwerddon/Prydain Fawr yn ystod y 12 mis diwethaf?'

[40] Cwestiwn: "Yn y flwyddyn mis, sut gymharodd cyfaint y nwyddau a anfonwyd gan eich busnes o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon â'r mis calendr blaenorol?". Ymatebion cyfartalog gan fusnesau sy'n "masnachu ar hyn o bryd" o donnau gan gynnwys y cwestiwn a lle na chafodd gwerthoedd eu cuddio dros donnau 44 i 143 (sy'n cyfateb i fisoedd cyfeirio mis Tachwedd 2021 a mis Medi 2025, yn y drefn honno). Nid ydym yn adrodd ymatebion "Ddim yn siŵr" a "Ddim yn berthnasol", ac felly ni fydd modd ychwanegu'r ffigyrau at ei gilydd i gael 100%.
[41] Cwestiwn: A yw eich busnes wedi anfon nwyddau o Ogledd Iwerddon i Brydain Fawr yn ystod y 12 mis diwethaf?". Cyfrannau o fusnesau sy'n "masnachu ar hyn o bryd" sy'n ymateb "do" dros donnau 30 i 131. Er bod y cwestiwn wedi'i gynnwys dros donnau 137 i 143 (sy'n cyfateb i fisoedd cyfeirio mis Gorffennaf i fis Tachwedd 2025), mae'r holl werthoedd wedi'u cuddio.
[42] Cwestiwn: "Yn y flwyddyn mis, sut gymharodd cyfaint y nwyddau a anfonodd eich busnes o Ogledd Iwerddon i Brydain Fawr â'r mis calendr blaenorol?". Ymatebion cyfartalog gan fusnesau mewn tonnau gan gynnwys y cwestiwn a lle na chafodd gwerthoedd eu cuddio dros donnau 42 i 137 (sy'n cyfateb i fisoedd cyfeirio mis Tachwedd 2021 a mis Mehefin 2025, yn y drefn honno). Nid ydym yn adrodd ymatebion "Ddim yn siŵr" a "Ddim yn berthnasol", ac felly ni fydd modd ychwanegu'r ffigyrau at ei gilydd i gael 100%.

*Data cwsmeriaid Prydain Fawr i Ogledd Iwerddon CThEF*

4.28 Mae Cyllid a Thollau EF (CThEF) yn adrodd ar symudiadau nwyddau i Ogledd Iwerddon o Brydain Fawr yn seiliedig ar ddata tollau.[43]

4.29 Gwerth y nwyddau sy'n gysylltiedig â datganiadau llawn[44] a gliriwyd gan CThEF sy'n symud o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon yn 2024 oedd £17.2 biliwn. Mae Ffigur 12 yn dangos bod nifer y datganiadau llawn a gliriwyd gan CThEF i Ogledd Iwerddon o Brydain Fawr wedi parhau'n gyson ar tua 1.5 miliwn rhwng 2023 a 2024, a bod 11,200 o fusnesau yn gysylltiedig â datganiadau o'r fath yn 2023 ac 11,400 yn 2024.


[43] Gweler y dolenni i ddata CThEF. Ar gyfer 2021: Crynodeb o symudiadau nwyddau i Ogledd Iwerddon o Brydain Fawr 2021. Ar gyfer 2022: Crynodeb o symudiadau nwyddau i Ogledd Iwerddon o Brydain Fawr 2022. Ar gyfer 2023: Crynodeb o symudiadau nwyddau i Ogledd Iwerddon o Brydain Fawr 2023. Ar gyfer 2024: Crynodeb o symudiadau nwyddau i Ogledd Iwerddon o Brydain Fawr 2024. Mae Cyllid a Thollau EF (CThEF) yn cyhoeddi data gweinyddol ar ddatganiadau tollau ar gyfer nwyddau sy'n symud i Ogledd Iwerddon o Brydain Fawr, sy'n ofynnol dan Brotocol Gogledd Iwerddon ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Dywed CThEF nad oedd modd cymharu'r data yn uniongyrchol â chyhoeddiad Ystadegau Masnach Economaidd Gogledd Iwerddon oherwydd gwahaniaethau methodolegol, gan gynnwys methodoleg casglu, amseroldeb, a gwahaniaethau o ran cwmpas (gweler Crynodeb o symudiadau nwyddau i Ogledd Iwerddon o Brydain Fawr 2024: nodiadau methodoleg). Mae CThEF yn nodi bod y DU a'r UE wedi cytuno ar y Fframwaith Windsor, a sefydlodd gynllun masnach fewnol newydd y DU yn seiliedig ar rannu data masnachol ar gyfer symud nwyddau. Mae'r holl ddata yn y datganiad hwn yn berthnasol i gyfnodau cyn gweithredu Fframwaith Windsor, ac felly ni ddylid eu defnyddio i ddod i gasgliadau ynglŷn â threfniadau masnachu yn y dyfodol (gweler Crynodeb o symudiadau nwyddau i Ogledd Iwerddon o Brydain Fawr 2024: nodiadau methodoleg). Mae CThEF yn nodi y dylid bod yn ofalus wrth gymharu ar draws blynyddoedd oherwydd bod dyddiadau clirio yn cael eu defnyddio i ddiffinio blynyddoedd calendr yn hytrach na dyddiadau symud.

[44] Mae datganiad yn gyflwyniad electronig o ddata sy'n darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol yn gyfreithiol am y nwyddau sy'n cael eu mewnforio. Diffinnir datganiad llawn fel un o'r mathau canlynol o ddatganiadau: datganiad tollau safonol; datganiad atodol; neu ddatganiad atodol ar gyfer Cofnod yng Nghofnodion Datganwyr (EIDR). Yn gyffredinol, nid oes angen datganiadau tollau ar gyfer symudiadau post a pharseli a anfonir o Brydain Fawr at ddefnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, ond gall busnesau ddewis cyflwyno datganiadau a fyddai'n ymddangos mewn data yn wirfoddol. Mae eitemau ar ddatganiad sydd â gwerth mwy na £100 miliwn wedi'u heithrio fel allanolion (gweler Crynodeb o symudiadau da i Ogledd Iwerddon o Brydain Fawr 2024: nodiadau methodoleg).

**Ffigur 12: Arhosodd nifer y datganiadau ar gyfer nwyddau sy'n symud o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon yn gyson rhwng 2023 a 2024**

*Panel chwith: Nifer y datganiadau llawn a gliriwyd gan CThEF i Ogledd Iwerddon o Brydain Fawr, wedi'u rhannu yn ôl system ddatganiadau. Data o ddatganiadau Gwasanaeth Datganiadau Tollau CThEF (CDS), 2021, 2022, 2023 a 2024.*

*Panel dde: Nifer y busnesau sy'n gysylltiedig â datganiadau llawn a gliriwyd gan CThEF i Ogledd Iwerddon o Brydain Fawr. Data o ddatganiadau Gwasanaeth Datganiadau Tollau CThEF (CDS), 2021, 2022, 2023 a 2024.*




*Ni ddiwygiwyd data 2021 gyda methodoleg wedi'i diweddaru ac felly nid oes modd ei gymharu'n uniongyrchol â data o 2022 ymlaen. Data o ddata gweinyddol Gwasanaeth Datgan Tollau (CDS) CThEF.

### Mewnwelediadau ar bwy sy'n masnachu yn y DU

4.30 Yn yr adran hon, rydym yn adolygu'r dystiolaeth orau sydd ar gael i roi mewnwelediadau o'r graddau mae gwahanol fathau o fusnesau yn masnachu gyda rhannau eraill o'r DU a'r rhwystrau posibl maent yn eu hwynebu, gan nodi a oes newid wedi bod ers Adroddiad Blynyddol 2024-2025. Rydym yn dibynnu ar y BICS[45], sy'n cynnwys cwestiynau am gyfran y busnesau sy'n masnachu gyda gwledydd eraill y DU a'r heriau a wynebwyd wrth wneud hynny.[46]

[45] Mae gan y BICS nifer fawr o gwestiynau, ac nid yw pob un ohonynt yn cael eu gofyn ym mhob ton. Mae'r cwestiynau BICS a ddefnyddiwn yn yr adroddiad hwn yn cael eu cynnwys yn aml rhwng tonnau 63 a 143, sy'n cyfateb i gyfnodau mis Awst 2022 a mis Hydref 2025. Dylid nodi bod canlyniadau ton weithiau yn cael eu cuddio gan y SYG oherwydd nifer isel yn ateb.

[46] Cwestiynau o ddiddordeb: "Yn ystod y 12 mis diwethaf, a yw eich busnes wedi gwerthu nwyddau neu wasanaethau i gwsmeriaid yng nghenhedloedd eraill y DU?", "Yn ystod y 12 mis diwethaf, a yw eich busnes wedi prynu nwyddau neu wasanaethau gan gyflenwyr yng nghenhedloedd eraill y DU?" ac "Yn ystod y 12 mis diwethaf, pa un o'r heriau canlynol, os unrhyw un, mae eich busnes wedi'i hwynebu wrth werthu nwyddau neu wasanaethau i gwsmeriaid yng nghenhedloedd eraill y DU?". Mae'r cwestiynau yn cael eu gofyn bob chwe thon ar hyn o bryd, er bod hyn wedi amrywio dros amser.

4.31 Mae cyfran ychydig yn fwy o gwmnïau yn adrodd eu bod yn cymryd rhan mewn masnach o fewn y DU na masnach ryngwladol ac mae cyfran y cwmnïau sy'n cymryd rhan mewn masnach o fewn y DU wedi parhau i fod yn gymharol gyson dros amser.

(a) Mae panel chwith Ffigur 13 yn dangos, mewn tonnau BICS rhwng mis Awst 2022 a mis Hydref 2025, bod tua 15% o fusnesau wedi adrodd eu bod wedi gwerthu i genhedloedd eraill y DU dros gyfnodau o 12 mis, er bod yna rywfaint o amrywiaeth rhwng tonnau. Er cymhariaeth, dywedodd tua 12% o fusnesau eu bod wedi allforio'n rhyngwladol yn ystod y 12 mis diwethaf yn ystod yr un cyfnod.[47] Mae'r canlyniadau hyn yn gyson â'r canfyddiadau yn Adroddiad Blynyddol y llynedd.

(b) Mae panel dde Ffigur 13 yn dangos, mewn tonnau rhwng mis Hydref 2023 a mis Hydref 2025, bod tua 15% o fusnesau wedi dweud eu bod wedi prynu o genhedloedd eraill y DU dros gyfnodau o 12 mis. Er cymhariaeth, dywedodd tua 13% o fusnesau eu bod wedi mewnforio'n rhyngwladol yn ystod y 12 mis diwethaf yn ystod yr un cyfnod.[48] Mae'r canlyniadau hyn yn gyson â'r canfyddiadau yn Adroddiad Blynyddol y llynedd.

---


[47] Gwybodaeth a gafwyd drwy'r cwestiynau: "Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio statws allforio eich busnes orau?" ac "A yw eich busnes wedi allforio nwyddau neu wasanaethau yn ystod y 12 mis diwethaf?". Dylid nodi bod y cwestiwn ynghylch allforion rhyngwladol rhwng tonnau 63 i 101 (y cyntaf) yn wahanol i'r cwestiwn rhwng tonnau 107 a 143 (yr olaf). Er y gellir cael yr un wybodaeth gan y ddau, gall y newid effeithio ar y ffordd y mae busnesau'n dehongli ac felly'n ymateb i'r cwestiynau hyn.

[48] Gwybodaeth a gafwyd drwy'r cwestiynau: "Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio statws mewnforio eich busnes orau?" ac "A yw eich busnes wedi mewnforio nwyddau neu wasanaethau yn ystod y 12 mis diwethaf?". Dylid nodi bod y cwestiwn ynghylch mewnforion rhyngwladol rhwng tonnau 92 i 101 (y cyntaf) yn wahanol i'r cwestiwn rhwng tonnau 107 a 143 (yr olaf). Er y gellir cael yr un wybodaeth, gall y newid effeithio ar y ffordd y mae busnesau'n dehongli ac felly yn ymateb i'r cwestiynau hyn.

**Ffigur 13: Mae cyfran uwch o gwmnïau yn adrodd eu bod yn cymryd rhan mewn masnach o fewn y DU na masnach ryngwladol ac mae cyfran y cwmnïau sy'n cymryd rhan mewn masnach o fewn y DU wedi parhau'n gymharol gyson dros amser**

*Panel chwith: Graff llinell sy'n dangos cyfran y cwmnïau sy'n adrodd eu bod wedi gwerthu i genhedloedd eraill y DU (llinell las) ac yn rhyngwladol (llinell lwyd) yn ystod y 12 mis diwethaf (%). Data o'r Arolwg Mewnwelediadau a Chyflwr Busnes.*

*Panel dde: Graff llinell sy'n dangos cyfran y cwmnïau sy'n adrodd eu bod wedi prynu o genhedloedd eraill y DU (llinell las) ac yn rhyngwladol (llinell lwyd) yn ystod y 12 mis diwethaf (%). Data o'r Arolwg Mewnwelediadau a Chyflwr Busnes.*




Data o'r Arolwg Mewnwelediadau a Chyflwr Busnes. Cwestiynau: Yn ystod y 12 mis diwethaf, a yw eich busnes wedi gwerthu nwyddau neu wasanaethau i gwsmeriaid yng nghenhedloedd eraill y DU?, 'Yn ystod y 12 mis diwethaf, a yw eich busnes wedi allforio nwyddau neu wasanaethau?', 'Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio statws allforio eich busnes orau?', 'Yn y 12 mis diwethaf, a yw eich busnes wedi prynu nwyddau neu wasanaethau gan gyflenwyr yng nghenhedloedd eraill y DU?', 'A yw eich busnes wedi mewnforio nwyddau neu wasanaethau yn y 12 mis diwethaf?' a 'Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau statws mewnforio eich busnes?'. Mae cwestiynau allforio/mewnforio rhyngwladol yn newid dros amser. Er y gellir cael yr un wybodaeth, mae'n bosibl yr effeithir ar y modd mae busnesau yn ymateb. Mae pob pwynt data yn cynrychioli ton.

### Masnach yn ôl sector diwydiant


4.32 Mae tystiolaeth BICS yn awgrymu bod busnesau yn y sectorau gweithgynhyrchu a masnach gyfanwerthu a manwerthu yn gyffredinol yn fwy tebygol o fasnachu gyda chenhedloedd eraill y DU, fel y gwelir yn Ffigur 14.

(a) Mewn tonnau rhwng mis Awst 2022 a mis Hydref 2025, ar gyfartaledd, dywedodd 32% o fusnesau yn y diwydiant gweithgynhyrchu eu bod wedi gwerthu i genhedloedd eraill y DU dros gyfnodau o 12 mis. Roedd y ffigwr hwn tua 25% ar gyfer y sector masnach gyfanwerthu a manwerthu, a 15% ar gyfer pob busnes. Mae'r canfyddiadau hyn yn gyson â'r rhai yn Adroddiad Blynyddol y llynedd.

(b) Mewn tonnau rhwng mis Hydref 2023 a mis Hydref 2025, ar gyfartaledd, dywedodd 26% o fusnesau yn y diwydiant gweithgynhyrchu eu bod wedi prynu o genhedloedd eraill y DU dros gyfnodau o 12 mis. Roedd y ffigwr hwn yn tua 21% ar gyfer y sector masnach gyfanwerthu a manwerthu, a 15% ar gyfer pob busnes. Mae'r canfyddiadau hyn yn gyson â'r rhai yn Adroddiad Blynyddol y llynedd.

**Ffigur 14: Mae cwmnïau yn y sectorau gweithgynhyrchu a masnach gyfanwerthu a manwerthu yn fwyaf tebygol o gynnal masnach o fewn y DU**

*Graff llinell sy'n dangos cyfran y cwmnïau sy'n adrodd eu bod yn gwneud gwerthiannau (glas tywyll) a phryniannau (glas golau) o fewn y DU yn ôl diwydiant. Data o'r Arolwg Mewnwelediadau a Chyflwr Busnes.*




4.33 Mae data masnach cenedl ddatganoledig yn dangos bod y sectorau sy'n[49] ymwneud fwyaf â masnach o fewn y DU yn amrywio yn ôl cenedl y DU, fel y gwelir yn Ffigur 15. Dadansoddir masnach o fewn y DU pob cenedl yn ôl sector diwydiant isod:

(a) Ar gyfer yr Alban, y sector busnes a gwasanaethau eraill oedd y gyfran fwyaf o werthiannau i weddill y DU rhwng 2019 a 2023. Mae Ffigur 15 yn dangos bod y sector yn cyfrif am 34.3% o gyfanswm gwerthiannau o fewn y DU yn 2023. Nid yw'r Alban yn rhyddhau data pryniannau sectoraidd.

(b) I Gymru, rhwng 2019 a 2022, roedd y sector gweithgynhyrchu yn arbennig o bwysig ar gyfer gwerthiannau a phryniannau o fewn y DU, ac roedd y sector masnach, llety a thrafnidiaeth hefyd yn bwysig ar gyfer pryniannau o fewn y DU. Mae Ffigur 15 yn dangos, yn 2022, mai'r sector gweithgynhyrchu oedd y gyfran fwyaf o werthiannau o fewn y DU ar 37%, a'r un ffigwr ar gyfer y sector masnach, llety a thrafnidiaeth, sef 35%. Y sector masnach, llety a


[49] Mae diwydiannau wedi'u grwpio yn sectorau diwydiant eang gan ddilyn y dull a gymerwyd gan Arolwg Masnach Cymru. Am ddadansoddiad manwl, gweler Arolwg Masnach Cymru, 2022: gwybodaeth ansawdd a methodoleg dan 'Grwpiau sector'.

thrafnidiaeth oedd yn cyfrif am y gyfran fwyaf o bryniannau o fewn y DU yn 2022 ar 42%, gyda gweithgynhyrchu yn cyfrif am yr ail gyfran fwyaf ar 36%.

(c) Ar gyfer Gogledd Iwerddon, rhwng 2019 a 2023, gweithgynhyrchu oedd y gyfran fwyaf o werthiannau o fewn y DU, a’r sector masnach, llety a thrafnidiaeth oedd yn cyfrif am y gyfran fwyaf o bryniannau o fewn y DU. Mae Ffigur 15 yn dangos, yn 2023, mai'r sector gweithgynhyrchu oedd y gyfran fwyaf o werthiannau o fewn y DU (36.0%). Roedd y ffigwr hwn yn sefydlog ar y cyfan rhwng 2019 a 2023. Y sector masnach, llety a thrafnidiaeth oedd y gyfran fwyaf o gyfanswm pryniannau o fewn y DU yn 2023, sef 58.8%.

**Ffigur 15: Roedd cyfran masnach o fewn y DU yn ôl sector diwydiant yn amrywio yn ôl cenedl yn 2023**

*Siart bar yn dangos cyfran y gwerthiannau o fewn y DU yn ôl sector diwydiant (%) yn 2023 ar gyfer Gogledd Iwerddon a'r Alban, ac yn 2022 ar gyfer Cymru. Data o Ystadegau Allforio yr Alban, Ystadegau Masnach Economaidd Gogledd Iwerddon ac Arolwg Masnach Cymru.*




### Masnach yn ôl maint y busnes

4.34 Mae tystiolaeth o'r BICS yn awgrymu bod busnesau mwy yn fwy tebygol o wneud gwerthiannau a phryniannau ledled y DU na busnesau llai, fel y dangosir yn Ffigur 16.


(a) Mewn tonnau rhwng mis Awst 2022 a mis Hydref 2025, ar gyfartaledd, gwnaeth 14% o ficro fusnesau (0 i 9 o weithwyr) werthiannau i genhedloedd eraill y DU dros gyfnodau o 12 mis, mewn cymhariaeth â 43% o fusnesau mawr (250+ o weithwyr).

(b) Ar gyfer pryniannau, ar gyfartaledd, gwnaeth 14% o ficro fusnesau bryniannau o genhedloedd eraill y DU dros gyfnodau o 12 mis mewn tonnau rhwng mis Hydref 2023 a mis Hydref 2025, a'r ffigwr ar gyfer busnesau mawr oedd 40%.

**Ffigur 16: Mae cwmnïau mwy yn fwyaf tebygol o gymryd rhan mewn masnach o fewn y DU**

*Panel chwith: Graff llinell sy'n dangos cyfran y cwmnïau a ddywedodd eu bod wedi gwneud gwerthiannau o fewn y DU yn y 12 mis diwethaf yn ôl band maint cyflogaeth. Data o'r Arolwg Mewnwelediadau a Chyflwr Busnes.*

*Panel dde: Graff llinell sy'n dangos cyfran y cwmnïau a ddywedodd eu bod wedi gwneud pryniannau o fewn y DU yn ystod y 12 mis diwethaf yn ôl band maint cyflogaeth. Data o'r Arolwg Mewnwelediadau a Chyflwr Busnes.*




Data o'r Arolwg Mewnwelediadau a Chyflwr Busnes. Mae pob pwynt data yn cynrychioli ton. Cwestiynau: 'Yn ystod y 12 mis diwethaf, a yw eich busnes wedi gwerthu nwyddau neu wasanaethau i gwsmeriaid yng nghenhedloedd eraill y DU?', ac 'Yn ystod y 12 mis diwethaf, a yw eich busnes wedi prynu nwyddau neu wasanaethau gan gyflenwyr yng nghenhedloedd eraill y DU?'.

4.35 Mae data masnach o'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon yn dangos bod cyfran y fasnach o fewn y DU a gynhelir yn ôl maint busnes[50] yn amrywio yn ôl cenedl, fel y gwelir yn Ffigur 17.

(a) Ar gyfer yr Alban, busnesau mawr (250+ o weithwyr) sy'n ffurfio'r mwyafrif o werthiannau o fewn y DU. Yn 2023, gwnaed 57.2% o gyfanswm y gwerthiannau o fewn y DU gan fusnesau mawr. Mae hyn wedi bod yn gyson

[50] Sylwer, mae meintiau busnes a ddefnyddir wrth ddadansoddi data masnach yn wahanol i'r rhai a ddefnyddir yn y dadansoddiad BICS. Bandiau maint data masnach: 0 i 49 o weithwyr ar gyfer bach, 50 i 249 o weithwyr ar gyfer canolig a 250+ ar gyfer mawr. Sylwch nad yw Arolwg Masnach Cymru yn samplu busnesau sydd â 0-2 o weithwyr.


dros y cyfnod 2019 i 2023. Nid oes data ar gael mewn perthynas â phryniannau o fewn y DU yn ôl band maint ar gyfer yr Alban.

(b) Ar gyfer Cymru, mae Ffigur 17 yn dangos, yn 2022, bod busnesau mawr yn cyfrif am dros hanner gwerth yr holl werthiannau o fewn y DU.

(c) Ar gyfer Gogledd Iwerddon, mae Ffigur 17 yn dangos, yn 2023, bod busnesau mawr yn dal y gyfran fwyaf o werthiannau o fewn y DU, sef 41.5%, o'i gymharu â 31.1% ar gyfer busnesau bach. Rhwng 2019 a 2023, busnesau mawr oedd yn cyfrif am y gyfran fwyaf o werthiannau o fewn y DU.

**Ffigur 17: Roedd cyfran y fasnach o fewn y DU yn ôl maint busnes yn amrywio yn ôl cenedl yn 2023**

*Cyfran o gyfanswm gwerthiannau o fewn y DU a wnaed yn ôl maint busnes (%), 2023 ar gyfer Gogledd Iwerddon a'r Alban, 2022 ar gyfer Cymru. Data o Ystadegau Allforio yr Alban, Ystadegau Masnach Economaidd Gogledd Iwerddon ac Arolwg Masnach Cymru.*





### Profiadau o fasnach o fewn y DU

4.36 Mae tystiolaeth BICS yn dangos nad oedd y rhan fwyaf o gwmnïau yn adrodd eu bod yn wynebu unrhyw heriau wrth werthu i genhedloedd eraill y DU mewn tonnau rhwng mis Awst 2022 a mis Hydref 2025, ac roedd cyfran fach wedi wynebu heriau yn ymwneud â gwahaniaethau mewn rheolau neu reoliadau, fel y gwelir yn Ffigur 18.

4.37 O'r busnesau a werthodd i genhedloedd eraill y DU, dywedodd dros hanner nad oeddent yn wynebu unrhyw heriau mewn tonnau rhwng mis Awst 2022 a mis Hydref 2025 (58% o gwmnïau ar gyfartaledd), a dim ond 5% o gwmnïau ar gyfartaledd a ddywedodd eu bod yn wynebu heriau sy'n ymwneud â gwahaniaethau mewn rheolau neu reoliadau. Wrth ystyried y cyfartaledd ar draws pob ton, nodwyd (i) costau trafnidiaeth a (ii) diffyg galw fel y problemau mwyaf cyffredin (15% o gwmnïau). Dywedodd 10% o fusnesau eu bod ar gyfartaledd yn wynebu heriau sy'n ymwneud â Phrotocol Gogledd Iwerddon / Fframwaith Windsor wrth werthu i gwsmeriaid yng nghenhedloedd eraill y DU.

**Ffigur 18: Dywedodd dros hanner y cwmnïau sy'n gwerthu i wledydd eraill y DU nad oeddent yn wynebu unrhyw heriau wrth wneud hynny**

*Graff llinell yn dangos cyfran y cwmnïau sy'n gwerthu i gwsmeriaid yng nghenhedloedd eraill y DU sy'n wynebu heriau amrywiol. Data o'r Arolwg Mewnwelediad a Chyflwr Busnes.*




### Casgliadau

4.38 Yn ei gyfanrwydd, mae data a ddarparwyd gan y SYG ac asiantaethau ystadegol cenedlaethol yn dangos bod masnach o fewn y DU wedi parhau'n gyson yn eang yn y blynyddoedd a ystyriwyd yn y cyfnod adrodd hwn. Prif gasgliadau'r bennod hon yw:

(a) Roedd masnach o fewn y DU yn cyfateb i o leiaf 5.8% o gynnyrch domestig gros (CDG) y DU yn 2019, sef £129 biliwn. Yn 2021, roedd y ffigwr hwn yn 5.6% o CDG y DU, sef £122 biliwn ym mhrisiau 2019.

(b) Mae masnach o fewn y DU yn gymharol bwysicach i'r Alban, Gogledd Iwerddon, a Chymru na Lloegr. Yn 2021, roedd gwerthiannau o fewn y DU fel canran gyfwerth â CDG dros 20% ar gyfer yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru, ac roedd yr un ffigwr ar gyfer Lloegr tua 3%.

(c) Mae masnach o fewn y DU yn cyfrif am gyfran uchel o'r holl fasnach allanol ar gyfer yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon:

(i) Roedd gwerthiannau o fewn y DU fel cyfran o gyfanswm y gwerthiannau allanol ar gyfer y blynyddoedd rhwng 2019 a 2022 yn amrywio o 43% i 63% yng Nghymru.[51] Mae data'r Alban yn dangos bod yr un metrig dros y cyfnod 2019 i 2023 yn amrywio o 58% i 62%. Ar gyfer Gogledd Iwerddon, roedd hyn yn amrywio rhwng 48% a 54% rhwng 2019 a 2024.

(ii) Roedd pryniannau o fewn y DU fel cyfran o gyfanswm y pryniannau allanol ar gyfer y blynyddoedd rhwng 2019 a 2022 yn amrywio o 45% i 62% yng Nghymru.[52] Ar gyfer yr Alban, rhwng 2019 a 2023, roedd hyn yn amrywio rhwng 65% a 68%. Roedd yr un metrig ar gyfer Gogledd Iwerddon yn y blynyddoedd 2019 i 2024 yn amrywio rhwng 59% ac 66%.

(d) Mae'r arolwg BICS yn dangos bod tua 15% o fusnesau yn cymryd rhan mewn masnach o fewn y DU.[53] Mae busnesau mwy yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn masnach o fewn y DU.[54] Mae busnesau mewn rhai diwydiannau yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn masnach o fewn y DU nag eraill.[55] Nid yw'r rhan fwyaf o fusnesau sy'n cymryd rhan mewn masnach o fewn y DU yn adrodd eu bod yn wynebu heriau wrth wneud hynny.[56]

---

[51] Dylid nodi bod yr amrywiad dros amser a welir yn ffigyrau Cymru yn debygol o gael ei esbonio o leiaf yn rhannol gan lefelau amrywiol o fasnach sydd heb ei dyrannu i wlad gyrchfan neu darddiad, yn hytrach nag yn unig i newidiadau ym mhwysigrwydd cymharol masnach o fewn y DU i Gymru. Mae gwerthoedd heb eu dyrannu yn bodoli lle mae busnesau wedi gwneud gwerthiannau neu bryniannau ond nad oeddent yn gallu eu dyrannu i gyrchfan neu leoliad tarddiad. Roedd gwerthoedd masnach heb eu dyrannu ar gyfer blynyddoedd 2020 a 2021 yn sylweddol uwch na blynyddoedd eraill. Gwerth y gwerthiannau heb eu dyrannu oedd £4 biliwn yn 2019, £20 biliwn yn 2020, £22 biliwn yn 2021 a £4 biliwn yn 2022. Gwerth y pryniannau heb eu dyrannu oedd £8 biliwn yn 2019, £23 biliwn yn 2020, £27 biliwn yn 2021 a £10 biliwn yn 2022.

[52] Gweler troednodyn 32.

[53] Mae tonnau arolwg BICS rhwng mis Awst 2022 a mis Hydref 2025 yn dangos bod tua 15% o fusnesau yn adrodd eu bod yn gwneud gwerthiannau o fewn y DU dros gyfnodau o 12 mis, ac mae tonnau rhwng mis Hydref 2023 a mis Hydref 2025 yn dangos bod tua 15% o gwmnïau yn adrodd eu bod wedi gwneud pryniannau o fewn y DU dros gyfnodau o 12 mis.

[54] Mae tonnau BICS rhwng mis Awst 2022 a mis Hydref 2025 yn dangos bod tua 43% o fusnesau mawr yn dweud eu bod yn gwneud gwerthiannau o fewn y DU dros gyfnodau o 12 mis, o'i gymharu â 14% o ficro fusnesau.

[55] Mae tonnau BICS rhwng mis Awst 2022 a mis Hydref 2025 yn dangos mai cwmnïau yn y sectorau gweithgynhyrchu a'r sectorau cyfanwerthu a manwerthu yw'r mwyaf tebygol o gymryd rhan mewn masnach o fewn y DU ar gyfartaledd.

[56] Mae tonnau BICS rhwng mis Awst 2022 a mis Hydref 2025 yn dangos nad yw mwy na hanner y busnesau (58%) yn wynebu unrhyw heriau wrth werthu i gwsmeriaid yng nghenhedloedd eraill y DU, a bod 5% ar gyfartaledd yn wynebu heriau sy'n deillio o wahaniaethau rheoleiddiol rhwng cenhedloedd.

# 5. DATBLYGIADAU RHEOLEIDDIOL

5.1 Mae'r bennod hon yn nodi'r datblygiadau rheoleiddiol y mae'r OIM yn eu holrhain ar hyn o bryd ac yn manylu ar yr ymgysylltiad yr ydym wedi'i gael gyda diwydiant mewn perthynas â'r rheoliadau hynny.

5.2 Ers mis Mawrth 2025, mae'r OIM wedi cyhoeddi ei Ddangosfwrdd Datblygiadau Rheoleiddiol (y 'dangosfwrdd') sy'n rhestru'r holl wahaniaethau rheoleiddiol (rhai arfaethedig a rhai sydd wedi'u cadarnhau) y mae'r OIM yn eu holrhain. Mae'r dangosfwrdd yn gwella tryloywder ar gyfer llywodraethau a rhanddeiliaid busnes o ehangder a dyfnder y datblygiadau rheoleiddiol y mae'r OIM yn eu monitro. Mae'r OIM yn olrhain y rhan fwyaf o'r gwahaniaethau rheoleiddiol ar y dangosfwrdd heb ymgysylltu manwl â rhanddeiliaid yn y diwydiant yr effeithir arno. Rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid y diwydiant pan fyddant yn cysylltu â ni yn uniongyrchol gyda phryderon ynghylch gwahaniaeth rheoleiddiol penodol. Mae hyn yn ein galluogi i leihau'r baich ar fusnes a chanolbwyntio ein gwaith lle fydd yn cael yr effaith fwyaf.


### Dangosfwrdd datblygiadau rheoleiddiol

5.3 Mae'r dangosfwrdd yn darparu cyflwyniad graffig o'r gwahaniaethau rheoleiddiol y mae'r OIM yn eu holrhain. Mae natur ryngweithiol y dangosfwrdd yn caniatáu i'r data gael ei weld mewn gwahanol ffyrdd, yn dibynnu ar a yw ffocws y defnyddiwr ar sectorau diwydiant, cenhedloedd unigol, neu feysydd polisi.

5.4 Caiff y dangosfwrdd ei ddiweddaru bob tri i bedwar mis. Mae'n cynnwys gwybodaeth[57] sy'n ymwneud â 71 o ddarnau o ddeddfwriaeth, sy'n cwmpasu 33 o feysydd polisi. Mae cymhwysiad tiriogaethol y polisïau hyn yn amrywio fel bod 30 yn ymwneud â Lloegr, 25 yn ymwneud â Chymru, 22 yn ymwneud â'r Alban ac 11 yn ymwneud â Gogledd Iwerddon. O'r rheoliadau hyn, mae 21 yn berthnasol yn Lloegr yn unig, 16 yn berthnasol yn yr Alban yn unig, 16 yn berthnasol yng Nghymru yn unig a 9 yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon yn unig (gweler Ffigur 19).[58]

[57] Mae'r holl ffigyrau'n gywir ar 1 Mawrth 2026.
[58] Mae rhai rheoliadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU yn berthnasol mewn mwy nag un genedl yn y DU.


**Ffigur 19 Cymhwyso tiriogaethol datblygiadau rheoleiddiol (rheoliadau fesul cenedl)**




*Ffynhonnell: [Dangosfwrdd Datblygiadau Rheoleiddiol OIM]()*

5.5 O'r 33 maes polisi hyn, mae 7 yn ymwneud yn thematig â'r amgylchedd a llesiant anifeiliaid, 6 yn ymwneud â bwyd a diod, 4 yn ymwneud ag ynni a sero net, 3 yr un yn ymwneud â thai, gwastraff ac ailgylchu; 2 yn ymwneud â gofal iechyd, diogelwch y cyhoedd a thrafnidiaeth; ac 1 yr un yn ymwneud ag iechyd a diogelwch a gwasanaethau eraill.

**Ffigur 20 Meysydd polisi rheoleiddio wedi'u rhannu yn ôl nwyddau, gwasanaethau a phroffesiynau**




*Ffynhonnell: [Dangosfwrdd Datblygiadau Rheoleiddiol OIM]()*

## Ymgysylltu â'r diwydiant ynglŷn â gwahaniaethau rheoleiddiol

5.6 Yn y cyfnod dan sylw yn yr adroddiad hwn, mae rhanddeiliaid y diwydiant wedi cysylltu â ni mewn perthynas â chwech o'r 33 maes polisi a restrir ar y

dangosfwrdd, yn bennaf trwy [ffurflen we](#) yr OIM. Ym mhob achos, rydym wedi ymgysylltu â chynrychiolwyr y diwydiant a chyfranogwyr y farchnad i archwilio'r materion ymhellach. Rydym yn nodi manylion am y gwahaniaethau rheoleiddiol hyn a'n hymgysylltiad isod.

**Adnabod electronig buchol**

5.7 Ym mis Mawrth 2025, tynnodd cynrychiolwyr y diwydiannau cig eidion a llaeth ein sylw at newidiadau rheoleiddiol a oedd ar ddod yn ymwneud ag adnabod electronig buchol (EID). Aethom ati i gyhoeddi adolygiad ffurf fer tri mis ar 19 Gorffennaf 2025 i archwilio effeithiau posibl ar y farchnad fewnol. Cyhoeddasom ein hadroddiad ar 29 Hydref 2025.

**Gwahaniaethau rheoleiddiol mewn adnabod electronig buchol**

Mae Llywodraeth y DU a'r tair llywodraeth ddatganoledig ar wahanol gamau o'r cylch datblygu polisi ar gyfer polisïau adnabod digidol buchol, ac nid yw adnabod digidol buchol gorfodol wedi'i gyflwyno mewn unrhyw ran o'r DU hyd yn hyn. Disgwylir y bydd yr Alban yn cyflwyno tagiau adnabod electronig buchol gorfodol sy'n defnyddio technoleg amledd uchel iawn (UHF), a bydd Cymru a Lloegr yn cyflwyno tagiau gorfodol sy’n defnyddio technoleg amledd isel (LF). Disgwylir i Ogledd Iwerddon, os cyflwynir system yno, gyd-fynd â’r arfer yn yr Undeb Ewropeaidd, lle mae'n rhaid i dagiau adnabod electronig buchol ddefnyddio technoleg LF ar hyn o bryd.

Mae hyn yn golygu y bydd dwy safon dechnegol wahanol ar waith ar gyfer adnabod electronig buchol yn y DU. Nid yw'r technolegau yn rhyngweithredol â'i gilydd, yn yr ystyr na all darllenydd LF ddarllen tag UHF ac fel arall. Mae hyn yn codi'r posibilrwydd y bydd rhai ceidwaid gwartheg yn delio â gwartheg sydd â thagiau LF ac UHF. Os ydyn nhw'n dymuno darllen y tagiau hyn yn electronig, felly bydd angen darllenwyr tagiau LF a UHF arnynt. Gallai hyn gynyddu costau symud gwartheg ar draws ffiniau cenedlaethol – yn enwedig ar draws ffin Lloegr/yr Alban – ac o bosibl effeithio ar fasnach yn y DU.

5.8 Fel rhan o'n hadolygiad, fe wnaethom ymgysylltu'n eang â rhanddeiliaid diwydiant a llywodraethol, gan siarad â thros 50 o fusnesau, cyrff masnach ac asiantaethau'r llywodraeth. Fe wnaethom hefyd gasglu data a oedd yn caniatáu i ni greu darlun o le’r oedd gwartheg yn symud ac i le’r oedd gwartheg yn symud.

5.9 Dywedodd y rhan fwyaf o randdeiliaid wrthym y byddai'n well ganddynt gael un dull o dagiau adnabod electronig buchol ar draws y DU. Fodd bynnag, nid oedd consensws ymhlith cyfranogwyr y farchnad o ran a oeddent yn ffafrio technoleg LF neu UHF ar gyfer adnabod electronig buchol. Rydym yn cydnabod bod hwn yn fater datganoledig a bod gan lywodraethau'r DU, yr Alban a Chymru resymeg polisi domestig dros eu dull arfaethedig. O ystyried hyn, fe wnaethom ganolbwyntio ein hadolygiad ar yr effaith debygol o gael dwy safon yn gweithredu yn y DU ac i ba raddau y gellid lliniaru unrhyw effeithiau masnach niweidiol.

5.10 O ystyried y dystiolaeth yn y rownd, daethom i'r farn y byddai mabwysiadu dwy safon dechnegol ar gyfer adnabod electronig buchol yn y DU, pe byddent yn cael eu rheoli'n ofalus, yn cael effaith brin ar *batrwm cyffredinol a chyfanswm cyfaint* masnach y farchnad fewnol mewn perthynas â gwartheg, er bod yr effaith yn debygol o fod yn sylweddol ar gyfer y busnesau yr effeithir arnynt fwyaf.

5.11 Canfuom, hyd yn oed pe byddent yn cael eu rheoli'n dda, y byddai dwy safon dechnegol yn cyflwyno *costau buddsoddi ychwanegol a ffrithiant masnach*, mewn cymhariaeth â sefyllfa lle mabwysiadwyd un safon. Yn seiliedig ar ystod o senarios, amcangyfrifwyd bod costau buddsoddi ychwanegol gweithredu dwy safon dechnegol rhwng 4% a 23% yn uwch na chael un safon ledled y DU, gyda chostau ychwanegol y dull mwyaf tebygol ym mhegwn isaf yr ystod hon. Bydd y costau buddsoddi ychwanegol hyn yn effeithio fwyaf ar farchnadoedd arwerthiannau da byw a lladd-dai mwy ac yn cael yr effaith fwyaf mewn rhanbarthau sy’n gyfagos i’r ffin rhwng Lloegr/yr Alban ond ni fyddant yn gyfyngedig i'r busnesau neu'r rhanbarthau hynny. Casglom felly, heb ddull clir a chydgysylltiedig o reoli masnach drawsffiniol, fod yna risg uwch y gall diwydiant wneud buddsoddiadau diangen neu fuddsoddiadau sy’n mynd yn wastraff.

5.12 Canfuom hefyd fod gweithredu dwy safon dechnegol ar gyfer adnabod electronig buchol yn y DU yn debygol o gyflwyno ffrithiant masnach sy'n mynd y tu hwnt i gostau buddsoddi, gan gynnwys mwy o gymhlethdod ac anawsterau posibl wrth nodi a yw anifail wedi'i dagio â thag LF neu UHF. Oni bai eu bod wedi'u cynllunio'n ofalus, gall unrhyw ddatblygiadau rheoleiddiol sy'n gorfodi math penodol o ddarlleniad adnabod electronig buchol pryd bynnag y defnyddir darlleniad adnabod electronig buchol (hyd yn oed os yw'n wirfoddol) greu mwy o anawsterau ar gyfer masnach y farchnad fewnol, yn enwedig pan fydd pasbortau papur buchol yn cael eu dileu'n raddol. Fe wnaethom ddod i'r casgliad ymhellach y dylai bod dull cyffredinol o gefnogi dwy safon genedlaethol fod wedi’i gydlynu a bod yn ddigon cadarn i fodloni'r safonau sy'n angenrheidiol i gynnal mynediad i farchnadoedd rhyngwladol.

5.13 Gwnaethom ddau argymhelliad i lywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig. Yn gyntaf, fe wnaethom argymell bod y llywodraethau yn sefydlu gweithgor masnach drawsffiniol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau ffermio, ocsiwn da byw a lladd-dy/prosesu cig i drafod sut ellir cynnal masnach drawsffiniol a pha fuddsoddiadau fyddai'n ei chefnogi orau.

5.14 Yn ail, fe wnaethom argymell bod y llywodraethau yn gweithio gyda'i gilydd i gynhyrchu datganiad clir, ar y cyd ar reoli symudiadau trawsffiniol sy'n defnyddio adnabod electronig buchol sy'n digwydd ym Mhrydain Fawr ac, ar wahân, rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon. Fel rhan o hyn, fe wnaethom argymell bod y llywodraethau yn nodi ar gyfer cyfranogwyr y diwydiant y sail y bydd yn dderbyniol defnyddio darlleniad adnabod electronig buchol ar gyfer cyflwyno gwybodaeth i'r gronfa ddata genedlaethol berthnasol.

5.15 Mae Llywodraeth yr Alban wedi ymateb i'r argymhellion, gan groesawu'r canfyddiadau a nodi ei bod wedi dechrau sgyrsiau i fynd i'r afael ag argymhellion yr adroddiad. Croesawodd Llywodraeth Cymru yr argymhellion, gan nodi y byddai'n parhau i gydweithio'n agos â Defra a Llywodraeth yr Alban i sicrhau, lle bo'n ymarferol, y bydd risgiau i'r farchnad fewnol yn cael eu lleihau.

**Poteli diod gwydr**

5.16 Yn y cyfnod sydd dan sylw yn yr adroddiad hwn, cododd rhanddeiliaid y diwydiant ddau fater cysylltiedig gyda ni mewn perthynas â photeli diod gwydr – yn gyntaf, yn ymwneud â Chyfrifoldeb Cynhyrchydd Estynedig dros becynwaith (pEPR); ac yn ail, yn ymwneud â chynlluniau dychwelyd ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd (DRS) a chynlluniau ailddefnyddio.

*Rhyngweithio rhwng pEPR a DRS*

5.17 Ym mis Rhagfyr 2024 ac yna ym mis Mawrth 2025, cysylltodd rhanddeiliad o'r diwydiant â ni gyda phryder y gallai cynhyrchwyr diodydd wedi'u pecynnu mewn metel a phlastig yng Nghymru gael eu heithrio rhag ffioedd gwaredu pEPR a chostau sefydlu DRS, er bod cynhyrchwyr sy'n defnyddio deunydd pacio gwydr yng Nghymru yn dal i orfod talu ffioedd pEPR. Roedd gan y rhanddeiliad bryderon y gallai hyn roi cynhyrchwyr sy'n defnyddio gwydr dan anfantais a chymell pobl i newid o ddefnyddio deunydd pacio gwydr i ddefnyddio deunydd pacio metel a phlastig.

5.18 Mae'r rheoliadau pEPR yn eithrio rhag ffioedd pEPR cynwysyddion diodydd wedi'u gwneud o fetel neu blastig os ydynt wedi'u cynnwys mewn DRS yn y DU ac felly yn ddarostyngedig i gostau sefydlu DRS.

5.19 Fe wnaethom ymgysylltu ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, a rhai rhanddeiliaid yn y diwydiant i ganfod a oedd cynhyrchwyr o'r farn y byddai'r rhyngweithio gwahanol rhwng rheoliadau DRS a pEPR yng Nghymru, mewn cymhariaeth â gweddill y DU, yn arwain at effeithiau i'r farchnad fewnol ar gyfer cynhyrchwyr diodydd, gan roi cynhyrchion sydd mewn pecynnau gwydr dan anfantais.

5.20 Mynegwyd amrywiaeth o farn ynglŷn ag effeithiau posibl y gwahaniaethau hyn a pha un ai a yw hyn yn rhoi deunydd pacio gwydr dan anfantais. Dywedodd rhai cynhyrchwyr wrthym mai'r anfanteision mwyaf o ddefnyddio deunydd pacio gwydr oedd cyfuniad o gostau deunyddiau uwch, a chostau cymharol uchel ffioedd gwaredu pEPR, yn rhannol oherwydd bod ffioedd pEPR yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio pwysau (yn hytrach nag ar sail fesul eitem), o ystyried bod gwydr yn sylweddol drymach na deunyddiau eraill.

5.21 Dywedodd cynhyrchwyr wrthym hefyd na fyddai'r gwahaniaeth polisi yng Nghymru yn achosi iddynt ystyried newid gwydr am ddeunyddiau pecynnu eraill. Dywedodd cynhyrchwyr mawr wrthym eu bod yn gwneud penderfyniadau tymor hwy ar sail y DU gyfan, a gan eu bod wedi rhagweld y byddai'n debygol y byddai DRS ar waith yng Nghymru yn y dyfodol, byddai unrhyw fantais o ddefnyddio plastig a metel yn fantais dros dro. Yn gyffredinol, roedd cynhyrchwyr yn ystyried gwydr fel y deunydd gorau ar gyfer rhai cynhyrchion, yn enwedig brandiau premiwm.

5.22 Cyfarfuom â'r timau polisi perthnasol yn Defra a Llywodraeth Cymru i drafod y materion hyn ac ysgrifennwyd at randdeiliad y diwydiant a oedd wedi cysylltu â ni ynglŷn â'r mater hwn i rannu ein canfyddiadau.

*Cynlluniau dychwelyd ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd*

5.23 Cysylltwyd â ni gan dri chorff masnach a nifer o fusnesau unigol sy'n cynrychioli gwahanol sectorau o'r diwydiant diodydd. Fe wnaethant godi pryderon ynglŷn â'r gwahaniaeth rheoleiddiol posibl sy'n dod i'r amlwg rhwng cynlluniau ar gyfer DRS yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon a chynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer DRS a fyddai'n cynnwys poteli gwydr untro ac, yn y pen draw, cynllun ailddefnyddio ar gyfer pob deunydd.

5.24 Fe wnaethom gyfarfod â phob un o'r cyrff cynrychioliadol hyn i ddeall eu pryderon yn well rhwng mis Tachwedd 2025 a mis Chwefror 2026.

5.25 Ar 12 Chwefror 2026, cynigiodd Llywodraeth y DU waharddiad rhag y MAPs ar gyfer poteli gwydr untro yn DRS Cymru, a fyddai'n cael ei gweithredu mewn deddfwriaeth cyn gynted â phosibl. Mae'r gwaharddiad hwn yn amodol ar Lywodraeth Cymru yn ymrwymo i feini prawf penodol:

(a) gan ddechrau ei DRS ar gyfer cynwysyddion diodydd plastig a metel fel y bwriadwyd ar 1 Hydref 2027;

(b) sicrhau bod ei DRS ar gyfer cynwysyddion diodydd plastig a metel yn bodloni'r meini prawf allweddol ar gyfer integreiddio â chynllun ar draws y DU gyfan (mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gan gynlluniau un system gofrestru ac adrodd, prosesau ar gyfer cymryd deunydd yn ôl o'r ddwy ochr – er enghraifft, gellir dychwelyd deunydd mewn unrhyw genedl, logos cyson, a'r un lefel ernes);

(c) ymestyn ei gyfnod pontio arfaethedig ar gyfer gwydr untro (lle mae ernes o 0c yn berthnasol ac nad oes gofynion na thargedau labelu yn berthnasol) tan fis Hydref 2031 – a nod hyn yw rhoi amser ychwanegol i'r diwydiant i baratoi ar gyfer cyflwyno gwydr yn rhan o DRS Cymru.

5.26 Ni chynigiodd Llywodraeth y DU eithriad ar gyfer elfennau ailddefnyddio DRS Llywodraeth Cymru, ar y sail ei fod yn dal i gael ei ddatblygu, gan nodi y bydd

unrhyw gais eithriad ar gyfer ailddefnyddio yn y dyfodol yn cael ei hystyried gan lywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig yn y Fframwaith Cyffredin perthnasol yn dilyn y broses a nodir yn y casgliad i adolygiad Llywodraeth y DU o gyfundrefn marchnad fewnol y DU (gweler paragraff 3.6 uchod). Byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau yn y sector hwn yn agos.

**Gwaith cosmetig nad ydyw'n llawfeddygol**

5.27 Ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2025, cysylltodd dau ddarparwr gwaith cosmetig nad yw'n llawfeddygol[59] (NSCPs) â'r OIM ynglŷn ag effeithiau posibl ar eu busnesau o ddeddfwriaeth arfaethedig Llywodraeth yr Alban i greu system haenog sy'n amlinellu gofynion cymwysterau ac ardystio mewn perthynas ag ystod o weithdrefnau. Fe wnaethom gyfarfod â'r ddau ddarparwr NSCP a gysylltodd â ni (pob un ohonynt â gweithrediadau yn yr Alban) ac archwilio gyda nhw y canlyniadau posibl ar gyfer ystod o ganlyniadau economaidd sy'n gysylltiedig â masnach drawsffiniol y farchnad fewnol, gan gynnwys:

(a) yr effaith bosibl ar brisiau cymharol NSCPs yn yr Alban mewn cymhariaeth â rhannau eraill o'r DU;

(b) safle cyfredol ac effeithiau disgwyliedig y ddeddfwriaeth arfaethedig sy'n gysylltiedig â safleoedd;

(c) y lefelau a mathau presennol o gymwysterau yn y diwydiant ac effeithiau tebygol deddfwriaeth arfaethedig ar argaeledd staff cymwys;

(d) y gwaith y byddent yn debygol o'i gynnig pan fydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn dod i rym; ac

(e) unrhyw newidiadau tebygol i'r cwmpas daearyddol a ffocws eu gweithrediadau.

5.28 Ar 8 Hydref 2025, cyflwynodd Llywodraeth yr Alban y Bil Gwaith Nad yw'n Llawfeddygol a Swyddogaethau Adolygwyr Meddygol (Yr Alban) i Senedd yr Alban. Mae'r bil arfaethedig yn cyfyngu'r eiddo lle ellir cynnig NSCPs ac yn gwahardd gweithdrefnau penodol rhag cael eu darparu i bobl dan 18 oed. Mae'r bil hefyd yn caniatáu i Lywodraeth yr Alban gyflwyno mwy o gyfyngiadau a gofynion ar gyfer y mathau hyn o waith yn y dyfodol. Gallai hyn gynnwys:

(a) dweud pwy all eu darparu;

(b) pa fath o hyfforddiant neu gymwysterau sydd eu hangen i'w darparu;

[59] Rydym yn defnyddio'r term 'NSCPs' i gyfeirio at amrywiaeth o driniaethau cosmetig gan gynnwys, ymhlith eraill, llenwyr croen (gan gynnwys Botox), triniaethau tynnu haen o groen, a thriniaethau plasma.

(c) sut mae'r rheolau o'u cwmpas yn cael eu gorfodi.

5.29 Byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau, o ystyried y potensial am effeithiau gwahaniaethau rheoleiddiol ar fasnach drawsffiniol, megis:

(a) cwsmeriaid o'r Alban sy'n chwilio am driniaethau yng ngweddill y DU;

(b) cwsmeriaid sydd wedi'u lleoli yng ngweddill y DU sy'n chwilio am driniaethau yn yr Alban;

(c) rhai darparwyr Albanaidd sy'n symud i weddill y DU (neu'n cynnig gwasanaethau yng ngweddill y DU) lle nad oeddent yn gwneud hynny o'r blaen.

5.30 Rydym hefyd yn parhau i fonitro datblygiadau mewn perthynas â NSCPs ar draws y deddfwrfeydd eraill yn y DU.

**Tanwydd solet wedi'i weithgynhyrchu**

5.31 Ym mis Mawrth 2025 cysylltodd cynrychiolwyr o'r diwydiant tanwydd di-fwg wedi'i weithgynhyrchu (MSF) â ni. Roedden nhw eisiau trafod y farchnad ar gyfer tanwydd di-fwg yn Lloegr. Fe wnaethom archwilio gyda nhw i ba raddau yr oedd mewnforion glo bitwminaidd 'mwg' (y cyfeirir ato yn aml fel 'glo tŷ') yn dod i mewn i Loegr o rannau eraill y DU, ac effaith y mewnforion hynny ar weithrediad y farchnad, gan gynnwys ar werthu tanwydd di-fwg.

5.32 Fe wnaethom gysylltu â Defra, mewn perthynas â deddfwriaeth bresennol sy'n llywodraethu gwerthu tanwydd solet yn Lloegr, ac yn yr un modd, gwnaethom gysylltu â'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon mewn perthynas â pholisi ansawdd aer ac argaeledd glo tŷ ym marchnad Gogledd Iwerddon. Yn ogystal, fe wnaethom archwilio'r ystadegau cenedlaethol sydd ar gael mewn perthynas â chynhyrchu, mewnforio a defnydd gwahanol fathau o danwydd solet, gan gynnwys tanwydd di-fwg.

5.33 Yng ngoleuni'r gwaith cychwynnol hwn, gwnaethom gysylltu â Defra mewn perthynas ag effaith y MAPs ar fasnach y farchnad fewnol mewn MSFs. Rydym yn parhau i fonitro datblygiadau yn y sector hwn yn agos.

**Effeithlonrwydd ynni ar gyfer offer trydanol**

5.34 Ym mis Awst 2025, derbyniodd yr OIM gyflwyniad ffurflen we gan gynrychiolydd o'r sector offer trydanol mewn perthynas â gwahaniaethau rhwng y rheoliadau ym Mhrydain Fawr a'r UE o ran sgoriau effeithlonrwydd ynni a labeli yn dilyn newidiadau i reoleiddiad yr UE. Rydym wedi ymgysylltu â swyddogion y diwydiant a'r llywodraeth i ddeall y gwahaniaethau rheoleiddiol, gan gynnwys effaith

hawddfraint a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â gorfodi'r safonau ecoddylunio, ac unrhyw effeithiau ar y farchnad fewnol a allai godi.

5.35 Fe wnaethom gyfarfod â grŵp cynrychioliadol o'r diwydiant, a phedwar busnes ar wahân, i drafod eu pryderon ynghylch (yn eu barn nhw) y diffyg eglurder i ddefnyddwyr sy'n deillio o'r gwahanol raddfeydd o raddio effeithlonrwydd ynni a ddefnyddir yng Ngogledd Iwerddon a Phrydain Fawr. Fe wnaethant hefyd godi pryderon am hawddfraint reoleiddiol sy'n caniatáu i offer sydd â sgôr ynni isel gael eu gwerthu ym Mhrydain Fawr ond nid yng Ngogledd Iwerddon. Roeddent yn pryderu bod yr hawddfraint, a arweiniodd at wahanol gynigion o ran offer rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon, ynghyd â'r gofynion labelu gwahanol, yn golygu bod yn rhaid iddynt wahanu eu cadwyni cyflenwi Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr. Roedden nhw'n pryderu bod hyn yn ychwanegu costau ac, yn y pen draw, yn lleihau dewis defnyddwyr.

5.36 Cyflwynodd Llywodraeth y DU hawddfraint reoleiddiol bellach ym mis Rhagfyr 2025, gan ganiatáu i'r labeli effeithlonrwydd ynni a ddefnyddir ym Mhrydain Fawr adlewyrchu'r rhai a ddefnyddir yng Ngogledd Iwerddon a'r UE. Fe wnaethom ofyn am farn bellach gan y diwydiant ar effaith yr hawddfraint ychwanegol hon ar fasnach. Eglurodd nad oedd yr hawddfraint bellach yn gorfodi cwmnïau i ddefnyddio graddfa Gogledd Iwerddon / yr UE, a oedd yn golygu'r posibilrwydd o labeli effeithlonrwydd ynni gwahanol yn cael eu defnyddio rhwng Gogledd Iwerddon a Prydain Fawr ond hefyd o fewn Prydain Fawr ei hun. O ganlyniad, mae'r diwydiant yn parhau i fod â phryderon ynglŷn ag effaith ar fasnach, a byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau.

**Casgliadau**

5.37 Gyda'i gilydd, mae'r datblygiadau rheoleiddiol yr ydym yn eu holrhain ar hyn o bryd yn cwmpasu ystod amrywiol o fentrau polisi. Fel rhan o'n cylch gorchwyl, rydym yn archwilio'r data hwn ar gyfer themâu a thueddiadau sy'n gysylltiedig â gwahaniaethau rheoleiddiol. Rydym wedi sylwi o'n Dangosfwrdd, a'r materion y mae diwydiant wedi cysylltu â ni yn eu cylch, nad oes un thema neu sector unigol yn dominyddu o ran gwahaniaethau rheoleiddiol gwirioneddol neu bosibl rhwng y pedair cenedl a bod gan wahaniaethau rheoleiddiol y potensial i ddod i'r amlwg ar draws amrywiaeth o sectorau.

5.38 Rydym hefyd yn arsylwi, er bod rheoliadau sy'n effeithio ar nwyddau yn dal i fod yn fwy cyffredin na rheoliadau sy'n effeithio ar wasanaethau neu gymwysterau proffesiynol, o ran y potensial i greu gwahaniaethau rheoleiddio, mae rheoliadau sy'n effeithio ar wasanaethau a/neu gymwysterau proffesiynol yn ffynhonnell bwysig o wahaniaeth rheoleiddiol posibl o fewn marchnad fewnol y DU.

5.39 O ystyried ehangder y gwahaniaethau rheoleiddiol posibl, mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd cydweithredu agos rhwng llywodraethau, a'r cwmpas i'r OIM

ychwanegu gwerth mewn achosion priodol, gan gynnwys trwy Fframweithiau Cyffredin.

E03549645

978-1-5286-6246-8